# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 5 a 12 Hydref 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

22 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

28 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

29 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

39 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

41 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Leanne Wood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan sawl gwaith y mae wedi cyfarfod â Changhellor y Trysorlys er 2003, gan gynnwys manylion o hyd y cyfarfodydd hynny, y pynciau a drafodwyd, y dyddiadau pryd y cynhaliwyd hwynt a'r lleoliad? (WAQ47991)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Megis gyda chyfarfodydd â'r Prif Weinidog, nid oes cofnod canolog yn cael ei gadw o'r cyswllt rhyngof fi a'r Canghellor dros y cyfnod hwn na chyfnodau eraill.

**Trish Law:** Beth oedd y gost i Lywodraeth Cynulliad Cymru o'ch anfon chi, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau a 225 o westeion ar ymweliad diweddar â'r K Club ger Dulyn i wylio Cwpan Ryder 2006? (WAQ48021) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad Cabinet ysgrifenedig am ddigwyddiad Cwpan Ryder a gyhoeddwyd ar 4 Hydref.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Leanne Wood:** Faint o arian y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wario ar hyrwyddo Dydd Owain Glyndŵr bob blwyddyn er 1999? (WAQ47990)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Nid ydym yn hyrwyddo dydd Owain Glyndŵr fel y cyfryw ond yr ydym yn cefnogi nifer o gynlluniau a digwyddiadau drwy wasanaeth yr amgylchedd hanesyddol, Cadw, ac mae'r Cynulliad yn ariannu sefydliadau diwylliannol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru—National Museum Wales. Mae'r manylion wedi eu nodi isod.

**Cadw**

- Mawrth 2000. Cynhyrchwyd arddangosfa deithiol ar gyfer ysgolion, cymunedau lleol ac amgueddfeydd ledled Cymru. Mae hon yn dal i gael ei defnyddio ac ar hyn o bryd mae ar fenthyg i ganolfan Owain Glyndŵr ym Machynlleth. Yr oedd y gost oddeutu £3,500.
- Haf 2000. Rhifyn o *Etifeddiaeth y Cymry* wedi ei neilltuo'n gyfan gwbl i Owain Glyndŵr, gydag erthyglau gan yr Athro Rees Davies (awdur y disgrifiad awdurdodol diweddaraf am y gwrthryfel: *The Revolt of Owain Glyndŵr*), Peter Humphries, Siân Rees a Ken Brassil. Yr oedd Owain Glyndŵr yn thema yn nifer o ddigwyddiadau Cadw yr haf hwnnw.
- Medi 2000. Cynhyrchwyd panel gwybodaeth ar gyfer bryn Owain Glyndŵr yng Nglyndyfrdwy. Mae hwn yn heneb restredig ac nid yw felly'n gymwys fel arfer i gael panel gwybodaeth drwy Cadw. Yr oedd yn un o anheddau Glyndŵr ac yma y cafodd ei ddatgan yn Dywysog Cymru mewn cyfarfod cudd o'u gefnogwyr ar 16 Medi 1400—y wreichionen a daniodd y gwrthryfel. Hefyd yn ystod y flwyddyn honno gwnaeth Cadw waith tirlunio a chyfnerthu ar y bryn i wrthwneud effeithiau erydu gan goed ac anifeiliaid fferm. Cafodd arddangosfa deithiol Owain Glyndŵr ei lleoli ar fuarth y fferm gerllaw'r bryn dros benwythnos canol Medi i gyd-fynd â digwyddiad i goffáu dechrau'r gwrthryfel.
- Ebrill 2001. Darlith gyhoeddus yng Nghonwy gan y diweddar Athro Rees Davies. Fe'i hamserwyd i gyd-fynd â chwe chan mlwyddiant cipio Castell Conwy gan y gwrthryfelwyr ar 1 Ebrill 1401.
- 2005. Gwnaeth Cadw waith tirlunio, draenio a chyfnerthu ar y domen a'r beili yn Sycharth (prif annedd arall Owain Glyndŵr sydd hefyd yn heneb restredig). Cynhyrchodd Cadw banel gwybodaeth newydd ar gyfer y safle y llynedd.

- Mae gwrthryfel Owain Glyndŵr hefyd yn elfen sylweddol (pedwar panel o 15) yn yr arddangosfa safle yng Nghastell Harlech (er bod hon wedi cael ei chynhyrchu ym 1987 mewn gwirionedd). Mae lle amlwg hefyd i warchae Owain Glyndŵr ar Gydweli yn yr arddangosfa safle yng Nghastell Cydweli (a gynhyrchwyd ym 1994).
- Er 2004, mae baneri Owain Glyndŵr yn cyhwfan yn flynyddol ar 16 Medi ar gestyll Caernarfon, Conwy, Harlech, Criccieth a Chaerffili.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

- Yr oedd cyfanswm y gwariant ar arddangosfa Owain Glyndŵr yn 2000 yn £67,000. Mae rhai o'r nwyddau a gynhyrchwyd ar gyfer yr arddangosfa yn dal i fod ar gael ac yn dal i werthu.
- Ym mis Gorffennaf/Awst 2003 cynhaliodd y Llyfrgell arddangosfa fechan am ferch Owain Glyndŵr, Catrin, i arddangos y garreg goffa sydd yn Llundain yn awr.

**Amgueddfa Cymru—National Museum Wales**

- Cafodd dathlu Dydd Owain Glyndŵr ei gyflwyno gan Amgueddfa Cymru yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan y llynedd. Yr oedd y gwariant yn 2005 yn £700 ac eleni yr oedd yn £500. Yr oedd a wnelo'r costau yn bennaf â phresenoldeb grŵp ailberfformio ar y safle a dyna brif ffocws y dathliadau.

**Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i leoliadau yng Nghymru gael eu defnyddio (a) i gynnal digwyddiadau a (b) ar gyfer hyfforddiant athletwyr yng Ngemau Olympaidd 2012? (WAQ48003)

**Alun Pugh:** Mae Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd wedi cael ei enwi fel Canolfan Olympaidd a bydd yn llwyfannu rhai o'r digwyddiadau pêl-droed. Yn ychwanegol at hyn mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i nodi cyfleusterau a lleoliadau ar draws Cymru lle byddai modd cynnal gwersylloedd ymarfer yn y cyfnod yn arwain at Gemau Olympaidd 2012. Cynhaliwyd cynhadledd amlddisgyblaethol gydag amryw o randdeiliaid yn Athrofa Chwaraeon Cymru ym mis Medi ac yr ydym yn gweithio'n agos gyda Phwyllgor Trefnu Llundain ar gyfer y Gemau Olympaidd i sicrhau bod cyfleusterau Cymru yn cael eu cynnwys yn y wybodaeth fydd yn cael ei rhannu i'r cenhedloedd fydd yn cystadlu.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad ym maes y portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon yn etholaeth Dyffryn Clwyd er 2003? (WAQ48006)

**Alun Pugh:**

**Y Celfyddydau**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu grantiau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru gwerth bron i £4.2 miliwn rhwng 2003-04 a 2004-05 i sefydliadau yn Nyffryn Clwyd. Mae hyn yn ychwanegol at arian 'Cymru gyfan' a allai fod wedi cynnwys gweithgarwch yn yr ardal neu brosiectau a ddeilliodd o'r ardal hon ond a gynhaliwyd mewn ardaloedd eraill o Gymru. Dyma rai enghreifftiau o sefydliadau sydd wedi cael cymorth: Clwyd Theatr Cymru, Dawns Gogledd-ddwyrain Cymru, Canolfan Grefftau Rhuthun ac Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen.

**Chwaraeon**

Yr wyf yn buddsoddi £5 miliwn y flwyddyn yn y cynllun nofio am ddim, sy'n darparu cyfleoedd i ddinasyddion iau a hŷn yr ardal i nofio am ddim.

Er 2003 mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi darparu mwy na £923,000 mewn grantiau cyfalaf Sportlot yn Nyffryn Clwyd. Mae hyn yn cynnwys £850,000 tuag at y cynllun ailwampio mawr gwerth £1.4 miliwn yng nghanolfan hamdden y Rhyl.

**Cadw**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhwymo £350,000 i Ddyffryn Clwyd i wneud gwaith hanfodol ar rai o adeiladau hanesyddol pwysicaf Cymru, yn cynnwys £150,000 i dref Dinbych i helpu gyda'r

gwaith adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yno. Mae nifer o henebion pwysig y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt yn yr etholaeth hefyd, yn cynnwys Castell Dinbych a muriau'r dref, ac mae ein buddsoddiad parhaus ynddynt yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu denu i'r ardal a'u bod yn cyfrannu at yr economi leol.

**Yr Iaith Gymraeg**
Mae'r cymorth i'r Gymraeg yn ardal Dyffryn Clwyd yn cynnwys:

- Menter Iaith Sir Ddinbych;
- darpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin;
- prosiect Twf Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- clwb ffermwyr ifanc cyfrwng Cymraeg yn ardal Dyserth er 2005 sy'n cael cynhaliaeth rannol drwy arian prosiect gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg;
- mae'r prosiect peilot addysg drochi cyfrwng Cymraeg wedi bod ar waith yn nalgylch Ysgol Glan Clwyd er 2004.

**Amgueddfa Cymru—National Museum Wales**
Mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu rhaglen 'Celf Cymru Gyfan—ArtShare Wales' i arddangos eitemau o'r casgliadau cenedlaethol mewn rhwydwaith o orielau rhanbarthol. Mae dau leoliad yn etholaeth Dyffryn Clwyd yn bartneriaid yn y cynllun.

Cynhaliwyd yr arddangosfa 'Casglu Cerameg Gyfoes**'** yng nghanolfan grefftau Rhuthun rhwng 21 Ionawr a 26 Chwefror 2006. Yr oedd yn dathlu casglu cerameg gyfoes yn gyhoeddus a phreifat ac yn arddangos gwaith 11 o artistiaid, saith ohonynt yn gweithio yng Nghymru. Yn ystod y pum wythnos, denodd y sioe 8,024 o ymwelwyr. Yr oedd y 5,610 o ymwelwyr ym mis Ionawr yn cynrychioli cynnydd o 11 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, ac yr oedd y 5,325 o ymwelwyr ym mis Chwefror yn cynrychioli cynnydd o 6 y cant.

Mae Castell Bodelwyddan eisoes yn bartner i'r Oriel Bortreadau Genedlaethol, ac mae'n dal nifer fawr o bortreadau o'i chasgliad. Cynhaliwyd yr arddangosfa 'Faces of Wales' yn y Castell rhwng 7 Hydref 2005 a 12 Chwefror 2006 ac yr oedd yn cynnwys gweithiau o bwys o gasgliadau Amgueddfa Cymru a'r Oriel Bortreadau Genedlaethol. Yr oedd y detholiad o waith yn berthnasol i ogledd Cymru a chanolbwyntiai ar lawer o ffigurau amlwg o Gymru o'r ail ganrif ar bymtheg hyd yr ugeinfed ganrif. Cynhaliwyd 33 o weithdai i ysgolion, gydag 849 o blant yn cymryd rhan. Heb gynnwys rhaglenni addysgol, cafodd 'Faces of Wales' 6,988 o ymwelwyr, cynnydd o 34 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2004-05.

**Ann Jones:** Faint o arian a wariwyd ar adnewyddu llyfrgelloedd cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru er 1997? (WAQ48007)

**Alun Pugh:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weinyddiaeth pêl-droed yng Nghymru? (WAQ48050)

**Alun Pugh:** Cymdeithas Bêl-droed Cymru yw'r corff sy'n llywodraethu pêl-droed yng Nghymru. Mae'n cael cefnogaeth gan Ymddiriedolaeth yr FAW. Nod yr ymddiriedolaeth yw canolbwyntio ar ddatblygu pêl-droed ymysg pobl ifanc yng Nghymru, yn ogystal â hyfforddi gwirfoddolwyr a hyfforddwyr a chanfod a datblygu chwaraewyr ifanc i hybu llwyddiant ein timau cenedlaethol yn y dyfodol.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â'r gallu i ychwanegu cyrff o dan adran 6(1)(O) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993? (WAQ48068) [W]

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi amserlen y llywodraeth i ychwanegu cyrff i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 o dan adran 6(1)(O) o'r Ddeddf? (WAQ48069) [W]

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chynlluniau'r Llywodraeth i ychwanegu cyrff i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 o dan Adran 6(1)(O) o'r Ddeddf? (WAQ48070) [W]

**Alun Pugh:** Mae gan y Cynulliad bŵer i wneud Gorchymyn i ddod o fewn cwmpas Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 unrhyw gorff y mae'n ymddangos i'r Cynulliad ei fod yn ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus neu unrhyw gorff y mae'n ymddangos i'r Cynulliad bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal o dan gytundeb, neu yn unol â threfniadau, a wnaed gyda chorff cyhoeddus neu gorff y Goron.

Ar ôl iddynt ddod o fewn cwmpas y Ddeddf, gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg gysylltu â'r cyrff hyn i'w hysbysu bod yn rhaid iddynt baratoi cynlluniau iaith Gymraeg. Bydd y cynlluniau hyn yn amlinellu'r mesurau y bydd y cyrff yn eu cymryd er mwyn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Gwnaethpwyd pum Gorchymyn hyd yn hyn dan adran 6(1)(o). Yr wyf yn ystyried ar hyn o bryd gynigion i ddod ag ystod o gyrff pellach o fewn cwmpas y Ddeddf. Nes y bydd y broses ystyried honno wedi ei chwblhau, nid yw'n bosibl nodi amserlen union ar gyfer llunio Gorchymyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i wella cystadleurwydd busnes yn y Gogledd-ddwyrain? (WAQ47943)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae prosiectau newydd a phrosiectau sydd ar y gweill yn sail i amryw o fuddsoddiadau a fwriedir i hybu cystadleurwydd busnesau yn y Gogledd-ddwyrain. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran y seilwaith adeileddol sy'n ofynnol i gynnal gweithgarwch economaidd yn y dyfodol, yn cynnwys seilwaith trafnidiaeth ffyrdd o amgylch parc diwydiannol Glannau Dyfrdwy a phrosiectau adfywio canol y dref yn Wrecsam. Dyma rai prosiectau eraill:

- rheolaeth neilltuedig dros eu cyfrif i gwmnïau sydd â photensial i dyfu llawer neu gwmnïau sy'n cynnal cymunedau lleol. Yn y chwe mis diwethaf, mae'r gweithgareddau hyn wedi creu neu wedi cynnal 350 o swyddi, gyda buddsoddiad llawn cysylltiol o £6 miliwn ac mae £10 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddynodi;
- cyngor busnes o ansawdd uchel drwy Llygad Busnes a rhaglenni Cymorth Cyffredinol i Fusnesau sydd hyd yma wedi cynnal 600 o swyddi, ac wedi cynyddu trosiant cyfun y cwmnïau yn sylweddol;
- cymorth o ran cyfleoedd datblygu yn ymwneud â chaffael a chyflenwi, gan ddarparu help i fusnesau i fanteisio ar gyfleoedd tendro yn y sectorau cyhoeddus a phreifat drwy'r prosiect datblygu cyflenwyr lleol. Mae cyfleoedd gwerth bron i £1 filiwn wedi cael eu dynodi ac mae cytundebau gwerth dros £350,000 wedi cael eu cadarnhau eleni.

Mae'r ffigurau diweithdra diweddaraf yn ategu llwyddiant y cynlluniau hyn a chynlluniau eraill. Yn Ne Clwyd, mae'r gyfradd hawlio budd-daliadau ddiweddaraf yn 1.8 y cant, sy'n is na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd y DU. Yn yr un modd yn y Gogledd-ddwyrain, mae'r gyfradd ddiweithdra ar gyfartaledd yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru a'r DU *.
[*Ffynhonnell: Nomis, Awst 2006, De Clwyd ac etholaethau eraill y Gogledd-ddwyrain]

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran datblygu llwybrau seiclo yng Nghymru? (WAQ47945)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ44969 gan Ann Jones AC ar 10 Gorffennaf.

Hefyd, ym mis Gorffennaf eleni, lansiais strategaeth drafnidiaeth Cymru at ddibenion ymgynghori. Mae hon yn amlinellu canlyniadau strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pob dull trafnidiaeth yng Nghymru am y 25 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu cynllun gofodol Cymru ac mae wedi cael ei hintegreiddio ag ef, ac â pholisïau economaidd a chymdeithasol eraill Cymru. Bydd consortia rhanbarthol, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, yn paratoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol yn unol â'r strategaeth hon a bydd y rhain yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer llwybrau cerdded a beicio.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran datblygu trafnidiaeth integredig yng Nghymru? (WAQ47946)

**Andrew Davies:** Yr wyf wrth fy modd bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn symud ein gweledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth gynaliadwy ac integredig i Gymru ymlaen. Cafodd Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 Gydsyniad Brenhinol ar 16 Chwefror 2006 a rhoddodd bwerau ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu a gweithredu, mewn partneriaeth, system drafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy ac economaidd i wasanaethu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yr wyf hefyd yn ymgynghori ynghylch strategaeth drafnidiaeth ddrafft Cymru, 'Cysylltu Cymru', sy'n darparu'r fframwaith i symud y gwaith hwn yn ei flaen ac mae'n elfen hanfodol i'n galluogi i gyflawni ein hagenda strategol. Caiff y strategaeth ei rhoi ar waith drwy'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol, yn cynnwys awdurdodau lleol, a fydd yn paratoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol yn nodi'r blaenoriaethau rhanbarthol a lleol o ran y ddarpariaeth drafnidiaeth.

Mae darparu trafnidiaeth integredig yn flaenoriaeth uchel ac yr wyf yn falch o gyhoeddi bod Colin Eaketts wedi cael ei benodi'n hyrwyddwr trafnidiaeth integredig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd ei benodiad yn ychwanegu at ein gallu i ddatblygu system drafnidiaeth integredig ymhellach.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog mwy o weithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru? (WAQ47947)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog entrepreneuriaeth drwy wella mynediad at gymorth sector cyhoeddus a phreifat drwy Llygad Busnes, drwy gefnogi busnesau sy'n cychwyn a chwmnïau sy'n awydd i dyfu drwy'r rhaglen gyffredinol cymorth busnes, a thrwy hwyluso mynediad at gyllid busnes drwy Cyllid Cymru a grant buddsoddi'r Cynulliad. Yr ydym hefyd yn meithrin gallu entrepreneuraidd ein pobl ifanc drwy'r gronfa datblygu gwybodaeth a graddio i fentro.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl a gyflogir yng Nghymru? (WAQ47948)

**Andrew Davies:** Yr oedd 1,339,000 o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2006, y nifer mwyaf erioed. Mae hyn yn gynnydd o 126,000 neu 10.4 y cant ers sefydlu'r Cynulliad. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 6.9 y cant ar draws y DU gyfan.

**Michael German:** Beth yw strategaeth gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch mewnfuddsoddi? (WAQ42951)

**Andrew Davies:** Mae mewnfuddsoddi, ynghyd â thwf busnesau cynhenid, yn dal i fod yn elfen allweddol yn ein strategaeth ar gyfer twf cynaliadwy yn yr economi a chyflogaeth. Mae ein dyheadau yn y naill faes a'r llall—mewnfuddsoddi a chwmnïau cynhenid—yn ategu ei gilydd yn hytrach na'u bod yn ddau beth cwbl ar wahân i'w gilydd.

Bydd Busnes Rhyngwladol Cymru, gydag arweinyddiaeth a chyfeiriad newydd yng Nghymru, yn Ewrop, yng Ngogledd America ac yn Awstralia yn manteisio ymhellach ar yr amgylchedd yr ydym wedi ei greu yng Nghymru—amgylchedd o fywiogrwydd economaidd, seilwaith soffistigedig ac agwedd 'mae unrhyw beth yn bosibl'.

**Michael German:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo cynlluniau rheilffyrdd cymunedol? (WAQ47952)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi cytuno ar gyllid i Gymdeithas y Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol ar gyfer ei gweithrediadau. Talwyd £20,000 yn 2004-05, talwyd £28,000 yn 2005-06 ac mae £28,000 pellach yn y gyllideb ar gyfer 2006-07.

Diben y cyllid yw galluogi'r gymdeithas i:

- ddarparu cymorth a chyngor i'r holl bartneriaethau rheilffordd cymunedol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru (Dyffryn Conwy, Arfordir y Cambria, Calon Cymru, Llangollen, Caer i Amwythig a Wrecsam i Bidston) neu sy'n cael eu datblygu (Gorllewin Cymru);
- helpu i ddatblygu cynlluniau o dan strategaeth arfaethedig yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer rheilffyrdd cymunedol;
- darparu cymorth cyllido i brosiectau datblygu bach ar reilffyrdd cymunedol Cymru, gyda chronfa gwerth £7,500 mewn blwyddyn lawn.

Mae'r grant yn cael ei dalu yn ddarostyngedig i nifer o amodau a thelerau, yn cynnwys darparu copi o'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Cynulliad, ynghyd â chopi o unrhyw adroddiad a wnaethpwyd gan yr archwilwyr am y cyfrifon.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i sicrhau dyfodol diwydiant ffilm Cymru y tu allan i Gaerdydd? (WAQ47953)

**Andrew Davies:** Mae strategaeth y diwydiannau creadigol a'r tîm sy'n ei chynnal, Busnes Creadigol Cymru, yn gynllun i Gymru gyfan sydd â chyfrifoldeb i sicrhau bod y budd o'n hymdrechion yn cael ei deimlo ledled Cymru. Yr ydym yn marchnata Cymru'n rhyngwladol fel cyrchfan ddelfrydol i'r diwydiant ffilm ac yn neilltuo adnoddau priodol dramor ac yma yng Nghymru.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl yng Nghymru a gyflogir gan gwmnïau sydd â'u perchennog y tu allan i'r DU? (WAQ47954)

**Andrew Davies:** Amcangyfrifir bod tua 120,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y flwyddyn gyfredol mewn bron i 1,000 o gwmnïau sy'n weithredol yng Nghymru ond sydd â'u perchennog y tu allan i'r DU. Mae hyn yn cynrychioli tua 9 y cant o'r holl swyddi yng Nghymru.

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad LG Electronics i gau eu ffatri yng Nghasnewydd, gan arwain at golli 315 o swyddi? (WAQ47955)

**Andrew Davies:** Ar 18 Awst, cyhoeddodd LG wrth ei weithlu y byddai'n cau ei waith electroneg yng Nghasnewydd erbyn diwedd y flwyddyn. Beiai'r cwmni, sy'n cydosod monitorau cyfrifiaduron, y gostyngiad mewn prisiau a'r cynnydd mewn costau cynhyrchu am y cau.

Fel y gwyddoch, talodd y Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd, Awdurdod Datblygu Cymru a sefydliadau hyfforddi gyfanswm o £131 miliwn i gynorthwyo prosiectau LG. O'r £131 miliwn a dalwyd

mewn gwirionedd—yn bennaf gan y Swyddfa Gymreig o dan arweiniad y Ceidwadwyr a'r WDA gynt—mae Llywodraeth y Cynulliad wedi adennill £28 miliwn o arian ac wedi cymryd y tir a'r adeiladau yn ôl.

Y ffactor pwysig yn awr yw sicrhau bod y gweithwyr y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio arnynt yn cael cymorth i ddod o hyd i waith newydd. Mae gan fy adran record ragorol yn delio â chyhoeddiadau o'r fath a bydd yn gwneud popeth sy'n bosibl i sicrhau bod y gweithwyr yn cael cymorth.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i hybu gweithgarwch economaidd ym Mhowys? (WAQ47956)

**Andrew Davies:** Mae **'**Cymru: Economi yn Ffynnu' yn nodi ein gweledigaeth o ran adfywio economaidd ym mhob rhan o Gymru. Mae'r cyfraddau diweithdra yn dal i fod yn eithriadol o isel mewn llawer o rannau o Bowys ac mae galw net am swyddi gweithgynhyrchu. Ein blaenoriaethau yw cynyddu cyflogaeth ymhellach eto a gwella ansawdd swyddi. I'r perwyl hwn mae partneriaid Tîm Cymru yn gweithio'n ddiwyd ar ddatblygu economaidd ledled Powys. Bydd cynllun yn Nyffryn Hafren yn ystyried cymorth i fusnesau yn cynnwys trafodaethau â busnes am safleoedd newydd, ac estyniad at y rhedfa ym maes awyr y Canolbarth yn y Trallwng. Mae cynlluniau ar gyfer parc eco newydd yn Llanidloes, Parc Derwen Fawr, a fydd yn ehangu'r clwstwr ynni adnewyddadwy ymhellach tua'r dwyrain o Fachynlleth.

Yn Sir Faesyfed, mae Kaye Engineering Ltd wedi prynu busnes J.L. French gynt ac mae'n bwriadu diogelu 130 o'r swyddi gwreiddiol yn Llanandras.

Ym Mrycheiniog, mae parc eco newydd yn cael ei gynnig yn Aberhonddu, ac mae 10 o swyddi newydd wedi cael eu creu gan Brecon Coachworks. Yn Nhalgarth, mae Knowles and Christou wedi creu wyth swydd newydd.

Yn y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael amdani cafwyd wyth o gynigion grant buddsoddi gan y Cynulliad, gwerth £221,000 i gyd.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag UK Ultraspeed am y ffaith iddynt hepgor Cymru o'u cynigion ar gyfer rheilffordd drenau 300 milltir yr awr? (WAQ47957)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda UK Utraspeed. Mae fy swyddogion yn monitro'r drafodaeth gyfredol am y posibilrwydd o ddatblygu rhwydwaith rheilffyrdd cyflym yn y DU yn agos ac maent mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran Drafnidiaeth am hyn a materion eraill yn ymwneud â'r rheilffyrdd. Y cam cyntaf yw sefydlu achos economaidd o blaid llwybr cyflym newydd, a deall natur y galw. Dim ond wedyn y gallwn asesu'r ffordd briodol o'i ddarparu, boed hynny drwy Maglev neu dechnolegau mwy confensiynol sydd wedi cael eu profi. Mae'n rhy gynnar i drafod llwybrau posibl na phatrymau stopio ar gyfer cynnig o'r fath.

**Mick Bates:** Pryd gaiff yr adroddiad ar ffordd osgoi y Drenewydd ei gyhoeddi? (WAQ47970)

**Andrew Davies:** Ym mis Chwefror 2006 darparodd ymgynghorwyr adroddiad i'm swyddogion am yr amrywiaeth eang o opsiynau sydd ar gael i ddatrys y problemau tagfeydd traffig yn y Drenewydd. Argymellasant y dylid rhoi ystyriaeth bellach i atebion yn seiliedig ar y ffyrdd, yn cynnwys ffordd osgoi.

O ganlyniad, bydd ymgynghorwyr newydd yn cael eu penodi'n ddiweddarach eleni i ystyried yr opsiynau hyn yn fwy manwl. Mae disgwyl i'r opsiynau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar yn 2008 a bydd y manylion llawn ar gael bryd hynny.

**Helen Mary Jones:** A all y Gweinidog roi manylion y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i alluogi'r unigolion sy'n gymwys i gael tocyn bws ond nad ydynt yn gallu defnyddio bws oherwydd anabledd i gael tocynnau ar gyfer dulliau trafnidiaeth eraill sy'n fwy hwylus? (WAQ47973)

**Andrew Davies:** Mae gan yr awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddarparu tocynnau teithio i alluogi deiliaid tocynnau bws rhad sy'n anabl i ddefnyddio mathau eraill o drafnidiaeth.

Yn ogystal, yr wyf wedi darparu £3 miliwn i ariannu 15 peilot arddangos o dan y cynllun consesiynau teithio ar gludiant cymunedol. Mae'r cynllun yn galluogi pobl sydd ag anabledd difrifol, na fyddent efallai yn gallu manteisio ar wasanaethau bws llawr isel, i ddefnyddio cludiant cymunedol penodol am ddim. Amgaeaf wybodaeth am bob un o'r cynlluniau peilot.

**ATODIAD A**
Rhestr o'r 15 prosiect arddangos

**Caerdydd a Bro Morgannwg**
**Prosiect Tocynnau y Gwasanaeth Brys Gwirfoddol**
Bydd y prosiect hwn yn dileu'r taliadau a godir am wasanaethau sy'n cael eu darparu gan fudiad trafnidiaeth gymunedol VEST yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau y codir tâl amdanynt yn cael eu darparu drwy ddeialu am fws, canu'r gloch a mynd ar y bws a gweithrediadau trafnidiaeth gymunedol. Bydd y cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn £75,200 yn 2006-07 a £79,150 yn 2007-08.

**Ceredigion**
**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion**
Dyfarnir hyd at £244,703 i'r cynllun hwn dros dair blynedd tuag at waith a fydd yn cael ei wneud mewn partneriaeth â gweithredwyr tacsis ledled Ceredigion. Bydd y tacsis yn cysylltu â'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus prif ffrwd priodol. Bydd nifer penodedig o dalebau yn cael ei ddosbarthu i ddefnyddwyr cymwys. Bydd gweinyddwr yn cael ei gyflogi i gyd-drefnu'r prosiect.

**Conwy**
**Cludiant Cymunedol Conwy**
Dyfarnir hyd at £269,531 dros dair blynedd i'r prosiect hwn ar gyfer gwasanaeth hyblyg cludiant cymunedol wedi'i leoli yn Llanrwst. Bydd yn defnyddio cerbydau cludo pobl newydd, cwbl hygyrch, i wasanaethu cymunedau yn ardaloedd gwledig Conwy. Y sir hon sydd â'r ganran uchaf o bobl o oed pensiwn yn byw ar eu pen eu hunain.

**Sir Ddinbych**
**Galw'r Gyrrwr Gogledd Sir Ddinbych**
Mae gan y prosiect hwn dros 700 o aelodau'n lleol yn barod. Bydd y cyllid yn ehangu'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol, gan ddarparu cludiant yn rhad ac am ddim i bobl sydd ag anabledd difrifol. Bydd y cyllid hwn hefyd yn golygu bod modd prynu cerbyd newydd yn ogystal â swydd yrru newydd am 48 awr yr wythnos. Bydd y cyllid yn £87,738 yn 2006-07 a £76,983 yn 2007-08.

**Sir y Fflint**
**Cludiant Cymunedol Gororau Cymru**
Dyfarnwyd hyd at £248,253 dros dair blynedd i'r prosiect hwn i ddarparu gwasanaethau o ddrws i ddrws i ddefnyddwyr lleol ledled rhannau gwledig Sir y Fflint, gan gysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol. Bydd gwasanaethau ceir gwirfoddol ar y gororau ac ar hyd y foryd yn defnyddio cerbydau presennol sydd ar gael yn barod drwy gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â'r Gronfa Loteri Fawr a Chyngor Sir y Fflint.

**Merthyr Tudful**
**Aberfan a Merthyr Tudful**

Bydd y prosiect hwn yn darparu cynllun galw'r gyrrwr o ddrws i ddrws ar gyfer pobl sydd ag anabledd difrifol yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Bydd yn gweithredu o leiaf chwe diwrnod yr wythnos rhwng 9am a 5pm ond bydd ar gael hefyd ar sail gyfyngedig y tu allan i'r amseroedd craidd hynny. Lle bo angen, trefnir cyswllt â thrafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol. Bydd y cyllid yn £95,252 yn 2006-07 a £44,571 yn 2007-08.

**Sir Fynwy**
**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol De Gwent**
Bydd y prosiect yn darparu gwasanaeth cludiant cymunedol yn ne Sir Fynwy gan dargedu pobl ag anabledd difrifol mewn cymunedau gwledig. Bydd teithwyr yn gallu manteisio ar ystod o gyfleusterau cymunedol er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Bydd y cyllid yn £63,792 yn 2006-07 a £25,374 yn 2007-08.

**Castell-nedd Port Talbot**
**Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Dulais**
Dyfarnir hyd at £136,830 dros dair blynedd i'r cynllun hwn. Bydd yn sefydlu amserlen flaengar a chynhwysfawr o wasanaethau o ddrws i ddrws i nifer o gyrchfannau o ben uchaf cwm Tawe, lle mae'r ddarpariaeth o fysiau llawr isel yn anghyson.

**Trafnidiaeth Gymunedol Castell-nedd Port Talbot**
Dyfarnir hyd ag £69,585 dros dair blynedd i'r prosiect hwn a chafodd ei ddatblygu gan bartneriaeth rhwng Trafnidiaeth Gymunedol Castell-nedd Port Talbot a'r prosiect Cymunedau yn Gyntaf ar ystâd Sandfields. Bydd yn darparu teithiau rhad yn ddyddiol i fwy nag 80 o drigolion gan ddefnyddio cerbydau presennol a gyrrwr sy'n cael ei gyflogi gan gynllun galw'r gyrrwr Sandfields.

**Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot**
Dyfarnir hyd at £314,527 dros dair blynedd i'r prosiect hwn i dreialu gwasanaeth cerdyn tacsi hyblyg, ar gais, i bobl sy'n cael anhawster i ddefnyddio'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus gyfredol.

**Sir Benfro**
**Cymdeithas Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro**
Dyfarnir hyd at £306,820 dros dair blynedd i'r prosiect hwn. Bydd yn ymestyn ymhellach y cynllun consesiynau teithio cyfredol ar drafnidiaeth gymunedol yn Sir Benfro drwy dreialu a gwerthuso dwy ffordd o ddarparu'r gwasanaeth 'teithio yn y dref', drwy ddatblygu ymhellach y gwasanaethau car cymdeithasol sy'n addas i gadeiriau olwyn, drwy helpu pobl sy'n cael anhawster efallai i ymgeisio am eu tocyn bws am ddim a thrwy brynu cerbydau hygyrch.

**Powys**
**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys**
Dyfarnir hyd at £381,453 dros dair blynedd i'r prosiect hwn. Bydd yn defnyddio'r adnoddau trafnidiaeth gymunedol presennol ym Mhowys drwy bartneriaeth sy'n ymledu ar draws y sir.

**Trafnidiaeth Gymunedol Llanwrtyd**
Dyfarnir hyd at £25,588 dros dair blynedd i'r prosiect hwn i'w alluogi i gyflwyno gwasanaethau ychwanegol, arbenigol, sy'n dilyn llwybrau hyblyg. Bydd y llwybrau'n cysylltu â'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol.

**Rhondda Cynon Taf**
**ACT—Aberpennar**
Dyfarnir hyd at £191,032 dros dair blynedd i'r prosiect hwn i ddarparu cynllun hygyrch o ddrws i ddrws yn nhref Aberpennar a'r cyffiniau drwy gyfrwng bysiau mini. Bydd y bysiau'n cael eu cynnal gan yrwyr, cynorthwywyr i deithwyr a chynorthwywyr gweinyddol rhan-amser.

**TRAVOL**

Bydd y prosiect hwn yn darparu trafnidiaeth hygyrch o ddrws i ddrws i gadeiriau olwyn, gan ymateb i'r galw, a hynny ar gyfer pobl sydd ag anabledd difrifol. Bydd y cyllid yn £156,527 yn 2006-07 a £100,987 yn 2007-08.

**Kirsty Williams:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â phroblem ardaloedd yng Nghymru sy'n methu derbyn band eang? (WAQ47981)

**Andrew Davies:** Mae strategaeth weithredu ar gyfer ardaloedd sy'n methu cael band eang wedi cael ei datblygu fel rhan o roi'r prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol ar waith. Mae'n amlinellu ffyrdd i ddynodi ardaloedd sy'n methu cael y gwasanaeth, drwy i'm swyddogion weithio gyda chyflenwr y prosiect, BT, a darparu band eang i'r ardaloedd hyn.

Mae fy swyddogion wedi sefydlu ystod o fecanweithiau er mwyn canfod pobl sy'n methu cael y gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys i) broceriaeth band eang drwy'r arsyllfa band eang, a ddefnyddir i ddynodi a chasglu data am ardaloedd ar draws Cymru sy'n methu cael band eang, ii) cyfeiriad e-bost pwrpasol (RIBS@wales.gsi.gov.uk), iii) cymryd rhan mewn digwyddiadau TGCh lleol/yn y gymuned a iv) ymateb ysgrifenedig a llafar i geisiadau am wybodaeth.

Mae'r data am ardaloedd sy'n methu cael band eang yn cael ei werthuso'n fisol. Caiff 20 ardal eu dewis bob mis ar sail cyfres gyson o feini prawf, y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Mae'r 20 uchaf hyn yn cael eu costio a nodir ateb technolegol sy'n arwain at ddileu'r broblem. Oherwydd cyfyngiadau technoleg efallai nad yw bob amser yn bosibl mynd i'r afael â rhai o'r ardaloedd hyn ar yr adeg y cânt eu dynodi. Mewn achosion felly caiff hyn ei adolygu yn erbyn atebion technoleg newydd bob chwe mis a bydd y bobl/busnesau yr effeithir arnynt yn cael eu hysbysu'n fanwl am yr hyn sy'n digwydd.

Hyd yma, daeth 50 o gofrestriadau i law o Frycheiniog a Sir Faesyfed drwy'r cynllun brocera. O'r cofrestriadau hyn mae saith safle yn gallu manteisio ar wasanaethau band eang erbyn hyn ar ôl i'w cyfnewidfa ffôn gael ei galluogi gan y prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol. O ran y 43 o gofrestriadau sy'n weddill, ymdrinnir â 37 ohonynt drwy waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r chwech sy'n weddill mewn ardaloedd anghysbell a bydd sylw'n cael ei roi i'r rhain wrth i glystyrau mwy o gofrestriadau ddod i'r amlwg yn y cyffiniau.

Byddwn felly yn eich annog i gymell eich etholwyr i gofrestru eu hangen am fand eang ar wefan brocera band eang www.abec.org.uk (Saesneg) www.bbwo.org.uk.

**Kirsty Williams:** Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gynnig i fusnesau mewn ardaloedd lle na ellir derbyn band eang? (WAQ47982)

**Andrew Davies:** Yn ychwanegol at weithgareddau prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol rhaglen Band Eang Cymru, sy'n anelu at ddarparu gwasanaeth band eang y genhedlaeth gyntaf (a ddiffinnir fel gwasanaeth band eang cyflymder rhwng 512 Kbps a 2 Mbps ar i lawr, rhwng 256 Kps a 512 Kbps ar i fyny) i'r rheini sy'n methu cysylltu ar draws Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnig Gwasanaeth Cynghori ynghylch Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). (Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei adnabod fel 'canolfannau cymorth TGCh', ond enw ffurfiol y gwasanaeth yw'r 'gwasanaeth cynghori TGCh'. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan y gangen cyflenwi e-fusnes o fewn Is-adran Gweithrediadau a Buddsoddi Cymru yn yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau.) Caiff y gwasanaeth ei gyflenwi drwy rwydwaith o ganolfannau ar draws Cymru ac mae ganddo bresenoldeb ym mhob awdurdod lleol.

Mae cynghorwyr TGCh pwrpasol o'r canolfannau hyn yn darparu help ymarferol a chymorth i fusnesau ar sut i gael cyswllt band eang drwy'r amrywiol opsiynau technegol a mathau o gyflenwad sydd ar gael. Er enghraifft, daearol, lloeren ac ati. Mae'r cynghorwyr hefyd yn gallu helpu i addysgu busnesau am

ffyrdd posibl o ddefnyddio band eang ar gyfer cymwysiadau busnes sy'n mynd lawer ymhellach na dim ond cyrchu at y rhyngrwyd yn gyflymach.

Dylai busnesau sy'n dymuno cysylltu â'r canolfan gynghori TGCh agosaf gysylltu â'm swyddogion ar 029 20368203.

**Ann Jones:** Faint o fusnesau a gychwynnodd o'r newydd yn etholaeth Dyffryn Clwyd bob blwyddyn er 1999?(WAQ48004)

**Andrew Davies:** Nodir y nifer o gofrestriadau TAW newydd yn etholaeth Dyffryn Clwyd er 1999 yn y tabl isod:

| **Blwyddyn** | **Cofrestriadau** |
|---|---|
| 1999 | 140 |
| 2000 | 135 |
| 2001 | 130 |
| 2002 | 135 |
| 2003 | 160 |
| 2004 | 165 |

Cafodd 498 o fusnesau newydd yn Sir Ddinbych gymorth gan y rhaglen cychwyn busnesau newydd rhwng mis Ebrill 2001 a mis Mawrth 2006.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad ym maes y portffolio menter, arloesi a rhwydweithiau yn etholaeth Dyffryn Clwyd er 2003? (WAQ48005)

**Andrew Davies:** Bu llawer o lwyddiannau yn Nyffryn Clwyd er 2003 sy'n dod o fewn y portffolio menter, arloesi a rhwydweithiau:

- cafodd y sector opto-electronig hynod o bwysig hwb yn 2005 pan agorodd y Technium OpTIC, buddsoddiad gwerth £15 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac arian Ewropeaidd Amcan 1. Y ganolfan oedd y gyntaf o'i bath yn y DU;
- mae parc busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llanelwy ar hyn o bryd yn cynnal 76 o fusnesau, dros 1,620 o swyddi a thros 76,880 metr sgwâr o arwynebedd llawr. Yn ddiweddar, cwblhaom seilwaith safle'r llain mawr olaf sy'n weddill (10 erw) am gost o fwy na £400,000, ac mae'r tir hwn yn cael ei farchnata i'r sector preifat ar hyn o bryd;
- gyda chymorth grant datblygu eiddo gan y WDA, cwblhawyd 5,000 metr sgwâr o ofod swyddfa hapfasnachol yn Bowen Court, parc busnes Llanelwy, gan Gladman Developments yn 2005. Cwblhawyd datblygiad tebyg 900 metr sgwâr yn Alder Court gan Anwyl Construction yn 2005 ar dir a brynwyd oddi wrth y WDA;
- gyda chymorth grant gwella tref gan y WDA, dyfarnwyd dros £2.5 miliwn i brosiectau adfywio rhwng 2003 a 2006 o dan gynllun symud ymlaen y Rhyl a menter treftadaeth treflun Dinbych. Yr oedd llawer o'r grantiau yn cefnogi cyllid gan bartneriaid eraill e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri a grant tai Cyngor Sir Ddinbych.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y diwydiant ffilm yng Nghymru? (WAQ48019)

**Andrew Davies:** Amgylchedd sector preifat yn hytrach na sector cyhoeddus yw diwydiant ffilm Cymru, yn cynhyrchu refeniw o fwy na £18 miliwn y llynedd. Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yw helpu i ddarparu amgylchedd sy'n annog a hwyluso gwneud ffilm yng Nghymru. Mae Busnes Creadigol Cymru, ynghyd â'i bartneriaid, yn gweithio'n galed i sefydlu diwydiant ffilm cynaliadwy yng Nghymru.

**Michael German:** Pa gefnogaeth ariannol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei darparu ar gyfer y mudiad/gystadleuaeth Cymru yn ei Blodau yn y flwyddyn ariannol hon? (WAQ48026)

**Michael German:** Pa gefnogaeth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r mudiad/gystadleuaeth Cymru yn ei Blodau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (WAQ48027)

**Michael German:** Pa gefnogaeth ariannol a ddarparwyd gan Fwrdd Croeso Cymru i'r mudiad/gystadleuaeth Cymru yn ei Blodau yn 2002-03, 2003-04, 2004-05, 2005-06? (WAQ48028)

**Andrew Davies:** Dros y cyfnod rhwng 2002-03 a 2006-07, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cymorth ariannol i Sefydliad Cymru yn ei Blodau drwy Fwrdd Croeso Cymru a Croeso Cymru fel y dangosir isod:

| **Blwyddyn** | **Cyllid (£)** |
|---|---|
| 2002-03 | 5,000 (BCC) |
| 2003-04 | 32,500 (BCC) |
| 2004-05 | 30,500 (BCC) |
| 2005-06 | 30,455 (BCC) |
| 2006-07 | 10,000 (Croeso Cymru) |

**Michael German:** Pa gefnogaeth ariannol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu ei darparu i'r mudiad/gystadleuaeth Cymru yn ei Blodau yn y flwyddyn ariannol nesaf? (WAQ48029)

**Michael German:** A yw'r gweinidog yn bwriadu parhau i gefnogi'r mudiad/gystadleuaeth Cymru yn ei Blodau ar yr un lefel ag a wnaed yn flaenorol gan Fwrdd Croeso Cymru? (WAQ48030)

**Andrew Davies:** Nid oes penderfyniadau wedi cael eu gwneud am y cymorth ariannol a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynllun Cymru yn ei Blodau yn y dyfodol. Materion yw'r rhain y penderfynir arnynt drwy'r prosesau cynllunio busnes sy'n mynd rhagddynt.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cysylltiadau band eang i rannau o Sir Faesyfed nad ydynt yn gallu ei dderbyn, megis Llanbister Road? (WAQ48074)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ47981, sy'n amlinellu'r camau sydd ar waith i ddarparu band eang mewn rhannau o Frycheiniog a Sir Faesyfed nad ydynt yn gallu cael y gwasanaeth.

Mae chwe chofrestriad wedi dod i law o safleoedd ar Llanbister Road. Erbyn hyn mae pump ohonynt yn gallu manteisio ar wasanaethau band eang ar ôl i'r prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol uwchraddio cyfnewidfa Llangunllo. Canfuwyd bod gan yr un cofrestriad sy'n weddill ddyfais rhannu llinell (DACS) ar y lein. Bydd y gost o dynnu'r ddyfais hon yn cael ei hystyried yn erbyn strategaeth weithredu'r prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol ar gyfer ardaloedd sy'n methu cael band eang. Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl bod eraill ar Llanbister Road sy'n dal i fethu cael band eang. Os felly, byddwn yn eich annog i'w cymell hwy ac eraill fel hwy i gofrestru ar wefan brocera band eang www.abec.org.ukto (Saesneg) www.bbwo.org.uk, i dynnu sylw at eu hangen am fand eang.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Michael German:** Pa ddulliau sicrhau ansawdd sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod safonau a rheoliadau a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu bodloni yng nghyd-destun contractau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith? (WAQ47966)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyfundrefn i adolygu perfformiad darparwyr. O dan y gyfundrefn hon mae'n craffu ar yr holl ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yn flynyddol, a'r rheini lle mae pryderon ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adolygiadau o berfformiad darparwyr yn dwyn ffynonellau sicrwydd ynghyd, yn cynnwys arolygiadau Estyn, monitro iechyd a diogelwch, monitro iechyd ariannol, adolygiadau archwilio a gwybodaeth sy'n dod o ddatganiadau hunanasesu'r darparwyr eu hunain. O ran cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau y brif ffynhonnell sicrwydd yw gwaith gwasanaeth archwilio a llywodraethu darparwyr AADGOS.

Mae'r holl ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yn cael eu harchwilio gan y gwasanaeth archwilio a llywodraethu darparwyr. Mae gwaith archwilio'r gwasanaeth yn cael ei wneud yn unol â safonau archwilio mewnol y llywodraeth ac mae'n rhoi sicrwydd ynglŷn â digonolrwydd systemau rheoli mewnol darparwyr i ddiogelu arian cyhoeddus. Mae hefyd yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â thelerau ac amodau cyllido Llywodraeth y Cynulliad a bod y data a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad, sydd wedyn yn gyrru'r drefn gyllido, yn gywir. Mae'n ofynnol hefyd i ddarparwyr sydd â chontractau gwerth mwy nag £1 miliwn gael archwiliad allanol blynyddol o'r data cyllido a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad.

Lle bo gan ddarparwyr systemau annigonol, eu bod yn cyflwyno data o ansawdd wael ac nad ydynt yn unioni'r sefyllfa yn amserol, byddant yn ddarostyngedig i weithdrefnau 'archwilio cynyddol' sy'n cynnwys cyfres o rybuddion ffurfiol a allai arwain at derfynu'r contract.

**Michael German:** Beth yw ymrwymiadau NTP Cymru, fel darparwr sydd dan gontract i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddysgu seiliedig ar waith, i'w ddysgwyr presennol? (WAQ47967)

**Jane Davidson:** Mae contract Llywodraeth y Cynulliad gyda'i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yn ei gwneud yn ofynnol iddynt reoli eu contract o fewn cyfeintiau penodedig. Ni chadwodd NTP Ltd at y gofyniad hwn a gorymrwymodd yn sylweddol ar ei gontract am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2006.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog roi unrhyw sicrwydd, pe bai contract NTP Cymru yn cael ei ganslo, y caniateir i ddysgwyr y darperir ar eu cyfer ganddo ar hyn o bryd, barhau i weithio tuag at eu cymhwyster gyda darparwr arall? (WAQ47968)

**Jane Davidson:** Fy mlaenoriaeth yw diogelu buddiannau pob dysgwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni dysgu seiliedig ar waith.

Mae swyddogion yn AADGOS wedi bod yn gweithio'n agos gyda NTP Ltd i reoleiddio ei sefyllfa gontractyddol a sicrhau bod yr holl ymrwymiadau dysgu presennol yn cael eu hanrhydeddu. Mae trefniadau wrth gefn yn cael eu sefydlu gogyfer â dysgwyr na all NTP barhau i'w cefnogi.

**Michael German:** Pryd mae'r archwiliad cyfredol o NTP Cymru'n debygol o ddod i ben? (WAQ47969)

**Jane Davidson:** Ar hyn o bryd mae NTP Ltd yn ddarostyngedig i weithdrefnau 'archwilio cynyddol'. Rhoddir y gweithdrefnau hyn ar waith pan fydd gan ddarparwyr systemau rheoli mewnol annigonol i ddiogelu arian cyhoeddus, eu bod yn cyflwyno data gwael neu annilys sy'n peri i arian Llywodraeth y Cynulliad gael ei dalu'n anghywir ac nad ydynt yn cywiro'r gwendidau yn amserol.

Mae'r gweithdrefnau archwilio cynyddol yn golygu cyflwyno cyfres o rybuddion ffurfiol gan Lywodraeth y Cynulliad i gydymffurfio â thelerau ac amodau contractyddol penodol. Gall methiant i gydymffurfio arwain at derfynu'r contract. Mae NTP ar gam olaf y gweithdrefnau archwilio cynyddol ar hyn o bryd ac mae ganddo tan 31 Hydref 2006 i fynd i'r afael â nifer o wendidau. Mae AADGOS yn darparu cymorth a chyngor i NTP i gyflawni hyn.

Mae ymweliadau ffurfiol wedi cael eu trefnu ar gyfer mis Hydref i alluogi gwasanaeth archwilio a llywodraethu darparwyr AADGOS i adolygu'r camau y mae NTP wedi eu cymryd. Pe bai'r ymweliadau hyn yn cadarnhau bod camau wedi cael eu cymryd, ni fydd NTP mwyach yn ddarostyngedig i archwiliadau cynyddol a bydd felly yn gymwys i gael unrhyw arian a ail-ddosbarthir yn yr un modd â darparwyr eraill yn y rhwydwaith dysgu seiliedig ar waith.

Bydd monitro agos gan y gwasanaeth archwilio a llywodraethu yn parhau y tu hwnt i 31 Hydref fodd bynnag, nes bydd y swyddogion yn fodlon bod systemau NTP yn gweithredu yn unol â chontract Llywodraeth y Cynulliad.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa ganran o blant sy'n mynychu ysgolion cynradd a oedd yn derbyn neu sy'n derbyn brecwast yn rhad ac am ddim mewn ysgolion yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn er 2003? (WAQ47978)

**Jane Davidson:** Cyflwynwyd y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd o fis Medi 2004.

Cynhwysais y wybodaeth isod am y nifer sy'n manteisio ar y cynllun yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 5 Gorffennaf:

Ebrill 2005 (wythnos yn dechrau 18 Ebrill 2005)

- Yr oedd 69 o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun.
- Aeth 3,149 (28 y cant) o'r disgyblion i un sesiwn brecwast o leiaf yn ystod yr wythnos.

Tachwedd 2005 (wythnos yn dechrau 7 Tachwedd 2005)

- Yr oedd y nifer o ysgolion a oedd yn cymryd rhan wedi cynyddu i 145.
- Cofnodwyd bod 6,599 (29 y cant) o'r disgyblion yn bresennol am o leiaf un sesiwn brecwast.

Mawrth 2006 (wythnos yn dechrau 13 Mawrth 2006)

- Yr oedd 227 o ysgolion yn cynnig brecwast am ddim.
- Manteisiodd 10,538 (28 y cant) o'r disgyblion ar y cynllun ar o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos.

Ers fy adroddiad diweddaru ar 5 Gorffennaf mae'r wybodaeth isod hefyd ar gael erbyn hyn:
Mehefin 2006 (wythnos yn dechrau 12 Mehefin 2006)

- Yr oedd 322 o ysgolion yn cymryd rhan
- Aeth 14,596 (26 y cant) o'r disgyblion i un sesiwn brecwast o leiaf yn ystod yr wythnos.

**Ann Jones:** Beth oedd (a) costau cymedrig a (b) costau canolrifol addysgu plentyn a oedd (i) yng ngofal awdurdod lleol a (ii) yn y carchar yn y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer; ac a wnaiff hi ddatganiad? (WAQ4799)

**Jane Davidson:** Nid yw costau addysgu plant sydd yng ngofal yr awdurdodau lleol ar gael yn ganolog. Byddai casglu gwybodaeth o'r fath yn hynod o gymhleth a gallai amrywio'n fawr dros amser a rhwng awdurdodau gan fod y nifer isel o ddisgyblion yn golygu y byddai newidiadau bach mewn ffactorau fel: y nifer o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, y nifer o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu y

tu allan i ysgolion prif ffrwd, y nifer o ddisgyblion a leolir y tu allan i'r sir a'r nifer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 neu addysg ôl-16, yn tueddu i awgrymu newidiadau mawr. Bydd y grant codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion i hyrwyddo addysg plant sy'n derbyn gofal yn rhoi'r cyfle inni i archwilio pa effaith a gaiff cynyddu'r lefel o gyllid a ddefnyddir ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai sy'n agosáu at arholiadau cyhoeddus yn 16 oed.

Nid yw costau addysgu plant o fewn yr ystâd ddiogel ychwaith yn cael eu dal yn ganolog, gan nad yw hwn yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli. Eto, byddai casglu gwybodaeth o'r fath, a'r costau felly, yn hynod o gymhleth ac yn amrywio'n fawr dros amser gyda newidiadau bach yn y nifer o bobl ifanc o fewn yr ystâd ddiogel a'u hanghenion amrywiol.

**Ann Jones:** Faint o leoedd mewn ysgolion, yn ôl ardaloedd awdurdodau addysg lleol, sydd ar gael ar gyfer plant gydag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol ledled Cymru? (WAQ48000)

**Jane Davidson:** Nid yw'r nifer o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion i ddisgyblion gydag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol yn cael ei ddal yn ganolog. Dangosir y nifer o ddisgyblion yr adroddwyd amdanynt yng nghyfrifiad ysgolion mis Ionawr 2006, ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, a oedd ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion mawr o ran anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, yn y tabl isod:

| | **Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig – anghenion mawr o ran anawsterau emosiynol ac ymddygiadol** | | |
|---|---|---|---|
| **AALl** | **Disgyblion â datganiad** | **Disgyblion heb ddatganiad** | **Cyfanswm disgyblion** |
| Ynys Môn | 52 | 70 | 122 |
| Gwynedd | 81 | 126 | 207 |
| Conwy | 19 | 204 | 223 |
| Sir Ddinbych | 68 | 273 | 341 |
| Sir y Fflint | 59 | 396 | 455 |
| Wrecsam | 81 | 169 | 250 |
| Powys | 141 | 468 | 609 |
| Ceredigion | 49 | 257 | 306 |
| Sir Benfro | 42 | 518 | 560 |
| Sir Gaerfyrddin | 169 | 540 | 709 |
| Abertawe | 133 | 690 | 823 |
| Castell-nedd Port Talbot | 63 | 315 | 378 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 60 | 306 | 366 |
| Bro Morgannwg | 14 | 534 | 548 |
| Rhondda Cynon Taf | 58 | 778 | 836 |
| Merthyr Tudful | 48 | 63 | 111 |
| Caerffili | 60 | 410 | 470 |
| Blaenau Gwent | 67 | 221 | 288 |
| Tor-faen | 54 | 374 | 428 |
| Sir Fynwy | 125 | 234 | 359 |
| Casnewydd | 113 | 634 | 747 |
| Caerdydd | 235 | 1,528 | 1,763 |
| Cymru | 1,791 | 9,108 | 10,899 |

**Ann Jones:** Faint o gyllid sydd ar gael, yn ôl ardaloedd awdurdodau addysg lleol, ar gyfer pob plentyn mewn cyfleusterau ar gyfer y rhai ag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol ledled Cymru? (WAQ48002)

**Jane Davidson:** Nid oes gwybodaeth am faint o arian sy'n cael ei ddarparu, yn ôl ardaloedd awdurdodau addysg lleol, am bob plentyn mewn cyfleusterau i'r rhai sydd ag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol ar draws Cymru yn cael ei dal yn ganolog. Cafodd y swm yng nghyllideb pob awdurdod addysg lleol i gael ei wario ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig ei gyhoeddi gan Gyfarwyddiaeth Ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 12 Gorffennaf 2006 (SDR 80/2006). Mae Tabl 3, a gyhoeddwyd fel gwybodaeth ychwanegol at WAQ48002, yn ddyfyniad o'r cyhoeddiad hwnnw.

**Ann Jones:** Pa arweiniad a gynigir i awdurdodau addysg lleol yng Nghymru ac i brifathrawon wrth ymdrin â phlant gydag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol? (WAQ48008)

**Jane Davidson:** Mae Cylchlythyr 3/99 y Cynulliad Cenedlaethol, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', yn rhoi arweiniad ynglŷn ag amryw o gamau gweithredu yn yr ysgol i fynd i'r afael â dadrithiad ymysg disgyblion ac i herio anawsterau ymddygiad a phresenoldeb gwael.

Caiff hwn ei ddisodli'n fuan gan 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion', sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2006, yn dilyn proses ymgynghori fanwl. Mae'r canllawiau diwygiedig hyn yn rhoi cyngor ac yn nodi'r cyfrifoldebau i gynnal lefel presenoldeb uchel ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion a'r angen i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion penodol i sicrhau eu bod yn cael addysg addas ac nad ydynt yn ymddieithrio oddi wrth addysg. Un ymyriad o'r fath yw defnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol, sy'n helpu disgyblion unigol i reoli eu hymddygiad yn well, drwy ddynodi canlyniadau ymddygiadol manwl a realistig i ddisgyblion i weithio tuag atynt ynghyd ag unrhyw gymorth angenrheidiol ac ymyriadau sy'n ofynnol gan ysgolion a'u partneriaid.

Yn aml, fodd bynnag, mae ymddygiad anodd yn deillio o anghenion addysgol arbennig nad ydynt yn cael eu diwallu. Mae cod ymarfer anghenion addysgol arbennig 2002 yn nodi nifer o ymyriadau a allai helpu plant a phobl ifanc sy'n arddangos nodweddion anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried ar sail unigol pa un a oes modd darparu'r ymyriadau hyn drwy Weithredu gan yr Ysgol a Mwy ynteu a fydd angen i'r awdurdod lleol wneud asesiad statudol a, lle bo hynny'n briodol, ddarparu datganiad anghenion addysgol arbennig. Byddai'r datganiad yn amlinellu'r lefel o ddarpariaeth addysgol a chymorth sy'n ofynnol, yn cynnwys natur unrhyw ddarpariaeth sy'n cael ei barnu'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion disgybl unigol. Mae'r broses hon yn cael ei diffinio'n glir yng nghod ymarfer anghenion addysgol arbennig 2002.

**Ann Jones:** Pa fesurau sydd yn eu lle i sicrhau bod plant gydag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu dysgu ar hyn o bryd mewn amgylchedd sy'n briodol i'w cyflwr? (WAQ48009)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb yr AALlau yw asesu'r lefel o ymyriadau sy'n ofynnol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r camau cymorth yn cynnwys Gweithredu gan yr Ysgol (ymyriad gan athrawon sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol), a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (cymorth allanol fel rhan o raglen ar gyfer unigolyn). Mae cymorth ar gael hefyd gan dimau cymorth ymddygiad lleol a fydd yn allweddol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau cymorth ymddygiad unigol.

Gall disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol mwy difrifol, yn dilyn cais gan yr ysgol neu riant, gael asesiad statudol o'u hanghenion a, lle bo hynny'n briodol, efallai y rhoddir datganiad anghenion addysgol arbennig iddynt. Byddai'r datganiad yn amlinellu'r lefel o ddarpariaeth addysgol a chymorth sy'n ofynnol, yn cynnwys natur unrhyw ddarpariaeth y bernir ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion disgybl unigol. Mae'r broses hon wedi cael ei diffinio'n glir yng nghod ymarfer anghenion addysgol arbennig 2002.

**Ann Jones:** Faint o blant yng Nghymru, yn ôl ardaloedd awdurdodau addysg lleol, sydd wedi derbyn diagnosis o anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol ledled Cymru sydd ar hyn o bryd yn cael eu dysgu mewn cyfleuster addysg prif ffrwd? (WAQ48010)

**Jane Davidson:** Dangosir y nifer o ddisgyblion yr adroddwyd amdanynt yng nghyfrifiad ysgolion mis Ionawr 2006, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, a oedd ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion mawr o ran anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, yn y tabl isod:

| | **Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig – anghenion mawr o ran anawsterau emosiynol ac ymddygiadol** | | |
|---|---|---|---|
| **AALl** | **Disgyblion â datganiad** | **Disgyblion heb ddatganiad** | **Cyfanswm** |
| Ynys Môn | 43 | 70 | 113 |
| Gwynedd | 39 | 126 | 165 |
| Conwy | 16 | 204 | 220 |
| Sir Ddinbych | 30 | 273 | 303 |
| Sir y Fflint | 49 | 396 | 445 |
| Wrecsam | 14 | 169 | 183 |
| Powys | 107 | 468 | 575 |
| Ceredigion | 49 | 257 | 306 |
| Sir Benfro | 38 | 518 | 556 |
| Sir Gaerfyrddin | 121 | 540 | 661 |
| Abertawe | 132 | 690 | 822 |
| Castell-nedd Port Talbot | 62 | 315 | 377 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 306 | 307 |
| Bro Morgannwg | 14 | 534 | 548 |
| Rhondda Cynon Taf | 18 | 778 | 796 |
| Merthyr Tudful | 3 | 63 | 66 |
| Caerffili | 59 | 410 | 469 |
| Blaenau Gwent | 67 | 221 | 288 |
| Tor-faen | 54 | 374 | 428 |
| Sir Fynwy | 65 | 234 | 299 |
| Casnewydd | 111 | 634 | 745 |
| Caerdydd | 142 | 1,528 | 1,670 |
| Cymru | 1,234 | 9,108 | 10,342 |

**Ann Jones:** Pa arweiniad y mae ei hadran hi wedi'i gynhyrchu ar gyfer ysgolion yng Nghymru ar atal a chanfod disgyblion sy'n cario cyllyll i'r ysgol, ac a wnaiff hi ddatganiad? (WAQ48011)

**Jane Davidson:** Mae'n hanfodol bod gan benaethiaid yng Nghymru gynifer â phosibl o opsiynau i'w helpu i feithrin amgylchedd lle gall holl aelodau'r gymuned ysgol ffynnu a theimlo'n saff a diogel. Mae hyn yn cynnwys y pwerau sy'n angenrheidiol i gynnal ysgol saff, ynghyd â chanllawiau clir i sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn ddiogel ac yn deg.

Mae Cymal 42 o'r Mesur Gostwng Troseddu Treisgar yn rhoi pŵer newydd i benaethiaid i chwilio disgyblion y mae ganddynt amheuaeth resymol eu bod yn cario cyllell neu arf arall ar eu person neu yn eu heiddo. Dylid nodi, fodd bynnag, mai pŵer newydd yw hwn—nid yw'n ddyletswydd: bydd unrhyw ysgol sy'n amau bod cyllyll yn cael eu cario yn dal i allu dewis pa un i fynd ati i chwilio ynteu i alw'r heddlu i wneud hynny.

Mae Cymal 42 yn ddarpariaeth i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw penderfynu a yw am gychwyn y pwerau i aelodau a staff ysgolion gael chwilio disgyblion am arfau yng Nghymru, a pha bryd i wneud hynny. Os daw'r Mesur Gostwng Troseddu Treisgar yn ddeddf,

bwriadwn ymgynghori am y cynnig i gyflwyno'r pwerau hyn, ynghyd â chanllawiau cysylltiol yn ymdrin â'u gweithredu, maes o law.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad ym maes y portffolio addysg a dysgu gydol oes yn etholaeth Dyffryn Clwyd er 2003? (WAQ48012)

**Jane Davidson:** Er 2003 cafwyd datblygiadau cyffrous ym maes addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn Nyffryn Clwyd ac yn fwy eang yn Sir Ddinbych drwyddi draw.

**Gweithio gyda Phartneriaid**
Yr ydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i'n galluogi i symud ein strategaeth dymor hir ymlaen yng Nghymru. Yr ydym yn gweithio gydag ystod eang o gyrff statudol a gwirfoddol i ddarparu dysgu. Ymysg y partneriaid mwyaf yn etholaeth Dyffryn Clwyd mae AALl Sir Ddinbych, Coleg Llandrillo, Coleg Llysfasi, ysgolion uwchradd lleol, Gyrfa Cymru yn y Gogledd-ddwyrain a darparwyr hyfforddiant preifat.

Mae rhaglenni a chynlluniau arbennig wrth gwrs yn ychwanegol at gyllido darpariaeth addysg o'r setliad refeniw ac maent yn cael eu targedau at amryw o agweddau o wella'r canlyniadau i ddysgwyr.

**Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd**
Mae brecwast am ddim mewn ysgolion yn un o'n 10 ymrwymiad pennaf yn 'Cymru: Gwlad Well'. Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael oddi wrth yr AALlau, mae 24 o ysgolion wedi ymrwymo i gymryd rhan erbyn diwedd tymor haf 2007 yn Sir Ddinbych. O'r cyfanswm hwn mae chwe ysgol o Ddyffryn Clwyd yn cymryd rhan yn y fenter ar hyn o bryd ac mae un ysgol arall i fod i ddechrau ym mis Tachwedd.

**Adeiladau Ysgolion**
Rhwng 2002-03 a 2006-07 mae £5,152,991 wedi cael ei ddyrannu i Gyngor Sir Ddinbych o dan fformiwla'r grant gwella adeiladau ysgolion. Bydd yr AALl yn cael £9 miliwn arall o'r rhaglen grant gwella adeiladau ysgolion rhwng 2005-06 a 2008-09. Ymysg y cynlluniau yn Nyffryn Clwyd sy'n cael cyllid mae ysgol gynradd newydd ym Mhrestatyn (nid yw'r enw'n hysbys eto) a fydd yn cael £5,700,000: £1 miliwn o gyllid tuag at labordai gwyddoniaeth newydd yn Ysgol Glan Clwyd, a £1.355,288 ar gyfer cyfleusterau cinio newydd yn Ysgol Dinas Bran ac Ysgol Brynhyfryd. Mae £4,328,278 o arian ar gyfer darpariaeth anghenion arbennig rhanbarthol wedi cael ei ddyrannu i Ysgol Plas Brondyffryn a'r Ganolfan Genedlaethol i Ddysgwyr â Nam ar eu Synhwyrau yn Sir Ddinbych.

**Cymorth**
Mae llawer o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cyrraedd ledled Sir Ddinbych drwy gynllun grant Cymorth. Mae'r cyllid i Sir Ddinbych yn 2006-07 yn £1,650,963, wedi'i ddyrannu drwy 31 o brosiectau unigol. Mae cyllid wedi cael ei ddarparu ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr i helpu i greu canolfan blant integredig, 'Canolfan y Dderwen' yn y Rhyl. Agorodd y ganolfan yn 2005.

**Rhagori**
Bydd wyth ysgol yn etholaeth Dyffryn Clwyd yn elwa o gyllid newydd ac ychwanegol o dan raglen Rhagori. Bydd cyfanswm o £197,708 o arian newydd yn cael ei rannu rhwng yr ysgolion cymwys gan eu galluogi i gyflwyno prosiectau newydd arloesol i fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad isel disgyblion. Mae pum ysgol gynradd, un ysgol uwchradd a dwy ysgol arbennig wedi cael eu hysbysu am y dyraniadau o dan y rhaglen.

Rhaglen newydd yw Rhagori sy'n cael ei chyllido'n bennaf o arian newydd sy'n dod i Gymru o ganlyniad i ddatganiad y Canghellor yn gynharach eleni. Bydd yr ysgolion sy'n cael cyllid yn ei gael am ddwy flynedd. Ysgolion gyda mwy na 50 o blant o oedran ysgol gorfodol neu sydd â mwy nag 20 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cael dyraniadau o dan y rhaglen.

**Cwricwlwm ac Asesu**

Yng ngwanwyn/haf 2006, cynhaliwyd cam peilot cyntaf gwaith newydd i gefnogi a sicrhau asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 3. Daw hyn yn sgil rhoi terfyn at y profion statudol ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Yr oedd y peilot eleni yn cynnwys rhyw 130 o ysgolion ar draws Cymru, gyda phedair o Ddyffryn Clwyd yn eu plith. Bydd y peilot yn sail i waith yn y dyfodol i gryfhau asesiadau athrawon.

Yn ogystal, sefydlwyd rhaglen ym mis Ebrill 2005 i ddatblygu sgiliau meddwl ac asesu dysgu gan weithio gydag ymgynghorwyr awdurdodau addysg lleol a'u hysgolion partner. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu, gweithredu a lledaenu arferion da o ran dysgu sgiliau meddwl a strategaethau asesu er mwyn dysgu. Dewiswyd naw AALl i gymryd rhan a nododd ymgynghorydd o bob AALl glwstwr o hyd at bedair o ysgolion o fewn ei awdurdod ef/hi i gael eu cynnwys yn y rhaglen ddatblygu. Mae'r degfed clwstwr yn cynnwys grŵp o bedair ysgol arbennig, o dan arweiniad swyddog AADGOS. Daw un o'r ysgolion arbennig sy'n cymryd rhan yn y rhaglen o Ddyffryn Clwyd. Prif amcanion y rhaglen yw:

- gwella perfformiad disgyblion;
- cynyddu'r ymwneud â dysgu;
- newid arferion yr ystafell ddosbarth gan wella addysgeg drwy hynny;
- cynyddu amlder gwersi creadigol.

**Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion**

Ynghyd â Chyngor Chwaraeon Cymru, yr ydym yn gweithio gyda phob awdurdod lleol i wella'r cyfleoedd ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion ac i gyflwyno arferion da. Mae £6.9 miliwn wedi cael ei ddarparu hyd yma i gefnogi'r fenter addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion ar draws Cymru. Er 2002 mae dwy ganolfan datblygu addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion wedi cael eu sefydlu yn Nyffryn Clwyd i adeiladu ar yr arferion da presennol ac ehangu ansawdd ac ystod y cyfleoedd addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion i bobl ifanc yn yr ardal.

Mae'r naill ganolfan ddatblygu a'r llall wedi'u lleoli yn y Rhyl, un yn Ysgol Uwchradd y Rhyl—a sefydlwyd yn 2002 (o fis Medi 2006 mae'r ganolfan ddatblygu hon yn parhau fel partneriaeth gynaliadwy) a'r llall yn Ysgol Uwchradd Dinas Brân, a ddechreuodd ym mis Medi 2006. Mae'r canolfannau datblygu yn cynnwys 12 ysgol gynradd, yn eu plith Tir Morfa—ysgol arbennig gyda safle cynradd ac uwchradd. Mae canolfan ddatblygu arall, wedi'i lleoli yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, i fod i ddod yn weithredol ym mis Medi 2007.

Hefyd, yn ystod cyfnod peilot y cynllun addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion, rhoddwyd cymorth ariannol i sefydlu Cymdeithas Chwaraeon Ysgolion Cynradd Sir Ddinbych: yn Nyffryn Clwyd mae yna erbyn hyn sawl cynghrair a chystadleuaeth a sefydlwyd ar gyfer grwpiau cymwys, sy'n cael eu cynnal yn wythnosol.

**Ieithoedd Modern Tramor**

Fel rhan o strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i gael rhagor o ddisgyblion i ddysgu ieithoedd ar draws Cymru, mae cyllid wedi cael ei ddarparu i AALl Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, dan arweiniad y Ganolfan Wybodaeth ar Ddysgu Ieithoedd yng Nghymru, i ymgymryd â phrosiectau gyda'r nod o gynyddu'r niferoedd a gwella'r safonau mewn ieithoedd tramor modern.

Mae'r rhain wedi cynnwys cytundeb 'Compact AALl' lle mae ysgolion uwchradd yn canolbwyntio ar nodweddion penodol i annog brwdfrydedd disgyblion i ddatblygu ieithoedd modern. Mae Ysgol Uwchradd y Rhyl hefyd yn gweithio ar brosiect llythrennedd triphlyg CILT lle mae'r adrannau ieithoedd tramor modern, Saesneg a Chymraeg yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull trawsgwricwlaidd i godi safonau llythrennedd.

Mae cam cyntaf rhaglen beilot dair blynedd i gyflwyno dysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar ac, yn Ninbych, mae Ysgol Frongoch yn cymryd rhan fel ysgol arloesol yn y peilot. Cafodd cyllid ei gadarnhau'n ddiweddar ar gyfer cam 2 y prosiect, gan ymestyn y gwaith hyd at fis Gorffennaf 2008.

**Llwybrau Dysgu 14-19**
Mae rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych yn cymryd rhan fyw yn natblygiadau'r Llwybrau Dysgu ac mae'n gyfrifol am sicrhau amryw o raglenni a'r cymorth angenrheidiol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyrchu at holl elfennau'r Llwybrau Dysgu 14-19.

Yn 2004-05 yr oedd £50,000 ar gael i gefnogi gweithgareddau Llwybrau Dysgu 14-19 yn Sir Ddinbych. Yn 2005-06 cynyddodd hyn i £120,000, yn cynnwys cyfran o'r arian prosiect Llwybrau Dysgu 14-19 Amcan 1—cynllun sy'n rhedeg am ddwy flynedd o fis Mehefin 2005. Mae'r arian Llwybrau Dysgu yn helpu'r Rhwydwaith i fwrw ymlaen â gweithgareddau sy'n cynnal chwe elfen allweddol y Llwybrau Dysgu—llwybrau dysgu sy'n cael eu teilwrio'n unigol, dewis ehangach a hyblygrwydd, craidd dysgu, hawl i gymorth gan anogwr dysgu, cymorth personol a chyngor a chyfarwyddyd gyrfaol.

Yn 2006-07 darparwyd £172,814 i'r rhwydwaith er mwyn iddo fwrw ymlaen ag agweddau allweddol y llwybrau dysgu, sy'n cynnwys ystod o weithgareddau mewn cydweithrediad ag ysgolion a cholegau yn Sir Ddinbych a fwriadwyd i ehangu'r dewis a'r hyblygrwydd i bobl ifanc. Mae Sir Ddinbych yn dal i gyrchu at £70,621 drwy arian prosiect Llwybrau Dysgu 14-19 Amcan 1. Ymysg y gweithgareddau allweddol mae ehangu'r ddarpariaeth llwybrau galwedigaethol fel y bydd pob ysgol yn gallu darparu o leiaf ddau lwybr dysgu galwedigaethol achrededig newydd yng nghyfnod allweddol 4 mewn partneriaeth â cholegau addysg bellach partner a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

**Y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin**
Yn ystod 2005-06, cyllidwyd nifer o brosiectau yn yr ardal:

- datblygu fframwaith cwricwlwm cyffredin yn sectorau amaethyddiaeth, rheoli cefn gwlad a choedwigaeth;
- darpariaeth gydweithredol ôl-16 ynghyd â dysgu gydol oes ar draws y sir.

Yr oedd cyfanswm y dyraniad y gronfa fuddsoddi gyffredin 2005-06 i AALl Sir Ddinbych a'r sefydliadau AB sy'n gwasanaethu'r ardal yn £382,161.

Mae'r dyraniad dangosol ar gyfer 2006-07 yn £286,052 ac mae hynny, unwaith eto, yn cwmpasu AALl Sir Ddinbych a'r sefydliadau AB.

Un enghraifft o weithgarwch y flwyddyn hon yn bod AALl Sir Ddinbych yn gweithio gyda'r holl ysgolion uwchradd, Coleg Llysfasi a sawl partner allweddol arall i ganolbwyntio ar ddatblygu'r fframwaith cydweithredol i'r ddarpariaeth ôl-16 ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cyfleuster preswyl ar y cyd i bobl ifanc 16 i 19 oed.

**Dysgu Cymunedol**
Cafodd cais i gefnogi model canolfan ddysgu gymunedol yn Sir Ddinbych ei groesawu gan Dysgu ac Addysgu Cymru (cyn yr uno yn 2006). Yr oedd gwerth llawn y prosiect yn £4.4 miliwn gyda chyfraniad o £2.9 miliwn i gyd gan ELWa dros gyfnod o dair blynedd. Mae Cyngor Sir Ddinbych mewn trafodaethau gyda'r swyddogion ar hyn o bryd i newid pwyslais y prosiect hwn.

**Addysg Uwch**
Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth allweddol yn fy strategaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, 'Ymgeisio yn Uwch', ac mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn rhagori ar gyfartaleddau'r DU yn gyson o ran denu cymysgedd cymdeithasol eang o fyfyrwyr, llawer ohonynt yn cael eu tangynrychioli mewn AU. Hyd yma, bu Cymru ar flaen y gad, yn nhermau'r DU, yn cynyddu cyfranogiad o blith grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Fel rhan o'r agenda i ehangu mynediad, sefydlwyd pedair partneriaeth 'Ymgyrraedd yn Ehangach' yn 2003 i weithio'n benodol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r partneriaethau'n gweithio ar ystod eang o brosiectau a fwriedir i hyrwyddo addysg uwch i'r rhai nad oes gan eu teuluoedd a'u cymunedau draddodiad o fynd i'r brifysgol.

Mae Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd Cymru, Prifysgol Gymunedol Gogledd Cymru, yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau ehangu mynediad sy'n cael eu targedu at y myfyrwyr anoddaf i'w cyrraedd o flwyddyn 9 i fyny. Mae'r gweithgareddau'n amrywio o fentora myfyrwyr ac anelu at ddiwrnodau coleg i ysgol haf ym mlwyddyn 10.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella cyfleoedd bywyd pobl yng Nghymru? (WAQ48022) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella'r gefnogaeth a'r cymorth i bobl anabl ledled Cymru ac mae wedi datblygu sawl cynllun ar draws amryw o feysydd polisi. Yr ydym wedi mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd ac yr ydym yn ariannu prosiect ar hyn am dair blynedd.

Bydd ein cynllun cydraddoldeb i bobl anabl yn cael ei lansio ym mis Rhagfyr a bydd yn nodi sut y bwriadwn hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl. Bu'n destun ymgysylltu helaeth ac ar hyn o bryd yr ydym yn ymgynghori yn ei gylch. Bydd yn nodi sut yr ydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl.

Ymysg enghreifftiau o rai cynlluniau penodol mae'r cynllun prentisiaid dehongli drwy Iaith Arwyddion Prydain i Gymru. Mae £2.7 miliwn wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chronfa gymdeithasol Ewrop i gyllido partneriaeth o randdeiliaid o'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus sy'n rhoi 'BSL Futures', y cynllun cyntaf o'i faint yn y DU, ar waith. Gan weithio gyda'r sector gwirfoddol yr ydym wedi cynhyrchu canllawiau ar asesu hygyrchedd lleoliadau. Cafodd y rhain eu lansio'n ddiweddar ac yr ydym yn eu hyrwyddo.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn dilyn ei ateb i (WAQ47911) A wnaiff y Gweinidog nodi'r dyddiad y bu iddo benderfynu galw i mewn y cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu Parc y Strade, Llanelli? (WAQ48001)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Penderfynais alw'r cais i mewn ar 25 Gorffennaf 2006 ac anfonwyd y llythyr gyda'r penderfyniad ar 26 Gorffennaf. Cefais fy mriffio gan y swyddogion am yr holl faterion perthnasol yn cynnwys safbwynt Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru 46 derbynnydd grantiau prosesu a marchnata, a rhoi manylion gwerth pob grant? (WAQ47980)

**Carwyn Jones:** Mae'r 46 derbynnydd grant prosesu a marchnata wedi'u rhestru isod.

| **Ymgeisydd** | **Cyfanswm Grant** |
|---|---|
| Abergavenny Fine Foods Limited | £72,700.08 |
| Abergavenny Fine Foods Cam II | £171,411.43 |
| ACC Milk | £222,188.00 |
| Ash Manor Cheese Company | £146,941.20 |
| Ash Manor Cheese Company Cam 2 | £280,065.00 |
| Ash Manor Cheese Company Cam 3 | £585,731.10 |
| Ash Manor Cheese Co Ltd Cam 4 | £200,060.72 |
| B Sidoli & Sons | £45,838.00 |
| Castle Dairies Limited | £24,621.60 |

| | |
|---|---|
| D Sidoli & Sons Limited (Cam II) | £148,800.00 |
| Dairy Farmers of Britain | £280,118.00 |
| Dairygold Food Products (UK) Ltd | £663,528.10 |
| Dansco Dairy Products Limited | £1,200,000.00 |
| Dansco Dairy Products Limited (Cam II) | £373,676.63 |
| Dansco Dairy Products (Cam III) | £67,380.98 |
| Freshfayre Products Limited | £8,250.00 |
| Glanbia Cheese Ltd | £377,600.00 |
| Golden Vale Dairies Ltd | £142,800.00 |
| Haven Foods Ltd | £49,556.18 |
| Haverfordwest Cheese Limited | £70,880.00 |
| Haverfordwest Cheese Company (Cam 2) | £936,842.00 |
| Highmead Dairies Limited | £114,063.38 |
| Knolton Farmhouse Cheese | £51,850.50 |
| Knolton Farmhouse Cheese (Cam II) | £142,744.20 |
| Llaeth y Llan | £36,000.00 |
| Loseley Dairy Ice Cream Limited | £839,353.60 |
| Mary's Farmhouse | £51,554.17 |
| OP Chocolates | £500,000.00 |
| Rachel's Dairy Limited | £259,235.40 |
| Rachel's Dairy Limited (Cam II) | £1,200,000.00 |
| Rachel's Dairy (Cam III) | £1,057,774.00 |
| Hufenfa De Arfon Cyf (cyfleuster caws) | £1,006,502.48 |
| Hufenfa De Arfon (prosiect llefrith hylif) | £981,600.00 |
| Teifi Farmhouse Cheese | £19,541.20 |
| Tomlinson's Dairies Ltd | £27,000.00 |
| Tomlinson's Dairies Ltd Cam 3 | £80,100.00 |
| Tomlinson's Dairies Ltd Cam 4 | £19,827.60 |
| Trethowan's Dairy Ltd | £121,413.00 |
| Upton Farm Frozen Foods | £38,690.26 |
| Volac International Limited | £396,000.00 |
| Bower Farm Dairy | £1,920.00 |
| Brookes Wye Valley Dairy Co | £7,416.90 |
| Caws Celtica | £1,701.84 |
| Llaeth Bethesda | £11,427.60 |
| Llangloffan Cheese | £1,750.00 |
| Brookes Wye Valley Dairy Co Cam 2 | £10,800.00 |
| **Cyfansymiau:** | **£13,047,255.15** |

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion lefelau cwotâu llaeth ar gyfer Cymru a'r DU ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ47983)

**Carwyn Jones:** Cwotâu Llaeth Cymru 1999-2007.
Mae'r Flwyddyn Gwota (Blwyddyn G) yn rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Mynegir y cwotâu mewn litrau.

| **Blwyddyn G** | **Cymru** | **Y DU** |
|---|---|---|
| | **Net** | **Net** |
| 1999-2000 | 1,406,916,286 | 14,165,039,802 |
| 2000-01 | 1,417,372,780 | 14,176,383,546 |
| 2001-02 | 1,478,764,803 | 14,184,152,346 |
| 2002-03 | 1,472,534,796 | 14,184,152,346 |
| 2003-04 | 1,511,383,019 | 14,184,152,346 |

| | | |
|---|---|---|
| 2004-05 | 1,624,899,149 | 14,184,152,346 |
| 2005-06 | 1,548,352,285 | 14,184,157,312 |
| 2006-07 | 1,554,560,516 | 14,254,991,762 |

Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, Caerwysg. Medi 2006.
Mae’r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn gweinyddu’r system cwotâu llaeth i Gymru a gweinyddiaethau eraill y DU.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion lefelau cynhyrchu llaeth ar gyfer Cymru a’r DU ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ47984)

**Carwyn Jones:**
**Tabl 1**
**Gwerthiant uniongyrchol—Cymru 1999-2006**
Mae’r Flwyddyn Gwota (Blwyddyn G) yn rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Mynegir y cwotâu mewn litrau.

| **Blwyddyn G** | **Gwerthiant Uniongyrchol** |
|---|---|
| 1999-2000 | 3,438,842 |
| 2000-01 | 3,844,082 |
| 2001-02 | 4,099,795 |
| 2002-03 | 2,479,966 |
| 2003-04 | 2,294,120 |
| 2004-05 | 2,435,762 |
| 2005-06 | 1,808,199 |

Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, Caerwysg. Medi 2006. Mae’r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn gweinyddu’r system cwotâu llaeth i Gymru a gweinyddiaethau eraill y DU.
Gwerthiant uniongyrchol—cynnyrch y mae cynhyrchydd yn ei farchnata’n uniongyrchol i’r cyhoedd.

**Tabl 2**
**Cynnyrch danfon—Cyfanwerthu 1999-2006**
Mae’r Flwyddyn Gwota (Blwyddyn G) yn rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Mynegir y cwotâu mewn litrau.

| | Swmp y Cynnyrch Danfon | |
|---|---|---|
| Blwyddyn G | Y DU | Cymru |
| 1999-2000 | 13,896,261,056 | 1,387,282,461 |
| 2000-01 | 13,552,890,038 | 1,344,687,231 |
| 2001-02 | 13,838,653,236 | 1,455,090,661 |
| 2002-03 | 13,863,259,933 | 1,456,422,051 |
| 2003-04 | 14,030,382,741 | 1,506,601,784 |
| 2004-05 | 13,767,664,994 | 1,504,484,035 |
| 2005-06 | 13,604,624,691 | 1,471,093,119 |

Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, Caerwysg. Medi 2006. Mae’r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn gweinyddu’r system cwotâu llaeth i Gymru a gweinyddiaethau eraill y DU.
Cyfanwerthu—cynnyrch a ddanfonir at brynwr sydd wedi cael ei gymeradwyo.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion sawl ceiniog y litr a roddir i gynhyrchwyr llaeth ar yr 20fed canradd, 40fed canradd, 50fed canradd, 60ain canradd, 70ain canradd, 80fed canradd, 90ain canradd? (WAQ47994)

**Carwyn Jones:** Nid yw gwybodaeth am bris llaeth yn cael ei chofnodi yn y fformat hwn.

**David Davies:** Sawl ffermwr sydd wedi cyflwyno apeliadau yn erbyn y taliadau a wnaethpwyd dan gynllun y taliad sengl newydd? (WAQ47997)

**Carwyn Jones:** Ar 29 Medi 2006, yr oedd 160 o apeliadau cam 1 wedi cael eu cofrestru, yn gofyn am adolygu penderfyniadau sy’n effeithio ar daliadau ffermwyr o Gymru o dan y cynllun taliad sengl ym mlynyddoedd 2005 a 2006 y cynllun.

**David Davies:** Sawl ffermwr sydd wedi cyflwyno apeliadau yn erbyn taliadau a wnaethpwyd dan gynllun y taliad sengl newydd a fu'n llwyddiannus yn cynyddu’r taliad gwreiddiol? (WAQ47998)

**Carwyn Jones:** Ar 29 Medi 2006, yr oedd 62 o apeliadau cam 1 ynglŷn â phenderfyniadau yn effeithio ar daliadau i ffermwyr yng Nghymru o dan y cynllun taliad sengl ym mlynyddoedd 2005 a 2006 y cynllun wedi cael eu hadolygu. Hyd yma, mae naw o’r apeliadau wedi bod yn llwyddiannus neu’n rhannol lwyddiannus (15 y cant). O ganlyniad, cynyddwyd y taliadau gwreiddiol i chwe apelydd. Ni chafodd y tri phenderfyniad arall unrhyw effaith ar lefel y taliad.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaethau i’r dyfodol i wella rhagor ar ansawdd dŵr môr o amgylch arfordir Cymru? (WAQ48058)

**Carwyn Jones:** Yn 2005 cyrhaeddodd pob un o’r 80 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru sydd wedi cael eu dynodi gan CE y safonau Ewropeaidd gorfodol a chyrhaeddodd 91 y cant, y ganran uchaf erioed, y safonau canllaw llawer llymach. Cyhoeddwyd 43 o draethau baner las yng Nghymru eleni, y nifer mwyaf erioed.

Cafodd y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru a’r cynllun gweithredu eu cyhoeddi ar 17 Mai 2006. Mae’n nodi amcanion cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran amgylchedd arfordirol a morol Cymru. Mae canlyniadau’r strategaeth yn cynnwys cynnal a chadw a gwella ansawdd ein dyfroedd arfordirol, a sicrhau y bydd ein moroedd yn lân ac yn cynnal ecosystemau iach sy’n amrywiol yn fiolegol, yn gynhyrchiol ac yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau ac amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer annog diogelu mannau gwyrdd agored ledled ardaloedd trefol yng Nghymru? (WAQ48060)

**Carwyn Jones:** ‘Polisi Cynllunio Cymru’ (2002) Llywodraeth Cynulliad Cymru sy’n darparu’r fframwaith cynllunio cyffredinol i sicrhau datblygu cynaliadwy sy’n diwallu holl anghenion iechyd ac adloniant cymunedau. Mae’n gefn i agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad a nodwyd yn ‘Cymru: Gwlad Well’ ac a roddir ar waith, er enghraifft, drwy ein strategaeth ‘Dringo’n Uwch’ (2005), y ‘Polisi Chwarae’ (2002), ac yn fwy diweddar ein strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006).

Dywed ‘Polisi Cynllunio Cymru’ (2002) y dylai mannau agored ffurfiol ac anffurfiol sydd â gwerth adloniadol neu amwynder sylweddol i’r gymuned gael eu gwarchod rhag cael eu datblygu, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Dylai cynlluniau datblygu lleol sicrhau bod mannau agored wedi’u dylunio’n dda a chyfleusterau eraill yn cael eu darparu, eu hamddiffyn a’u gwella mewn lleoliadau sy’n annog eu defnyddio.

Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch adolygu ‘Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 16: Chwaraeon, Adloniant a Mannau Agored’, sy’n ychwanegu at ‘Bolisi Cynllunio Cymru’ ac yn darparu cyngor manwl i awdurdodau cynllunio lleol am gynllunio darpariaeth mannau agored.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amddiffyn ffermwyr llaeth ar raddfa fechan yng Nghymru? (WAQ48061)

**Carwyn Jones:** Mae cynllun gweithredu strategol i'r diwydiant llaeth yng Nghymru yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan at ddibenion ymgynghori. Bydd y cynllun yn nodi gweithgareddau sydd i gael eu symud ymlaen drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cyngor Datblygu Llaeth a'r diwydiant i sicrhau diwydiant llaeth hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailgylchu gwastraff cartrefi yng Nghymru? (WAQ48062)

**Carwyn Jones:** Mae deiliaid tai yng Nghymru yn dal i ailgylchu mwy a mwy o'u gwastraff. Yn 2004-05 cafodd 286,455 tunnell fetrig (18.1 y cant) o wastraff cartrefi yng Nghymru ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae hyn yn cyfateb i 24.3 kg o ddeunydd y cartref yr wythnos ac mae'n cynrychioli cynnydd o 1.6kg y cartref dros 4 blynedd (2000-01 22.7kg). Caiff ffigurau 2005-06 eu rhyddhau ddiwedd mis Hydref 2006.

Y deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu amlaf gan ddeiliaid tai yw gwastraff gardd (31 y cant), papur a cherdyn (26.5 y cant), gwydr (13 y cant), metel sgrap a nwyddau gwynion (10.9 y cant) a phren (8.9 y cant). Yr oedd 71 y cant o boblogaeth Cymru yn cael casgliad ymyl y ffordd i fynd â deunyddiau i'w hailgylchu a'u compostio yn 2004-05 a thrwy gasgliadau ymyl y ffordd y cafwyd 42 y cant o ailgylchu gwastraff cartrefi. Yr oedd y 58 y cant arall o ailgylchu'n cael ei wneud drwy gyfleusterau amwynder dinesig a safleoedd dod â gwastraff.

Mae targed ailgylchu/compostio o 25 y cant i wastraff trefol yn 2006-07, ac mae gwastraff cartrefi yn cyfrannu tuag at hyn. Yn 2009-10 mae'r targed hwn yn cynyddu i 40 y cant ac er mwyn cyrraedd y targed hwn mae'n debygol y bydd yn rhaid gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae deiliaid tai yn ailgylchu. Gallai'r rhain gynnwys casglu gwastraff bwyd ar wahân a chasglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllunio ar gyfer llosgi gwastraff? (WAQ48063)

**Carwyn Jones:** Mae 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru' yn dweud ei bod yn debygol y bydd angen i awdurdodau lleol ddefnyddio cyfleusterau i adennill ynni o wastraff trefol gweddilliol nad oes modd ei ailgylchu. Mae hynny er mwyn cyrraedd targedau llym yr UE i leihau'r swmp o wastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae awdurdodau lleol ar draws Cymru wrthi erbyn hyn yn cynllunio sut mae cyrraedd y targedau. Ymysg yr opsiynau adfer ynni a ddylai gael eu hystyried mae gweithfeydd pŵer yn rhedeg ar wastraff gweddilliol a all ddarparu trydan neu wres yn uniongyrchol i ddiwydiant a gweithfeydd pŵer ar raddfa lai, sy'n eiddo i'r gymuned, yn darparu gwres o fewn dalgylch lleol efallai.

Mae'r cynlluniau gwastraff rhanbarthol i Gymru, sy'n ddogfennau cynllunio defnydd tir, yn cael eu hailwampio yn 2007. O safbwynt rheoli gwastraff yn gynaliadwy, bydd y cynlluniau diwygiedig yn cynnwys arfarniad opsiynau o wahanol opsiynau i reoli gwastraff trefol gweddilliol, yn cynnwys ynni o wastraff. Dylai'r cynlluniau nodi dewis o leoliadau i gyfleusterau gwastraff ar draws pob rhanbarth, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd.

Mae astudiaethau iechyd awdurdodol (cyhoeddwyd yr un ddiweddaraf ym mis Tachwedd 2005 gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd) yn dangos nad oes tystiolaeth bod ynni modern o gyfleusterau gwastraff yn cael unrhyw effaith fesuradwy ar iechyd y cyhoedd a bydd angen eu hystyried yng nghyd-destun ffynonellau llygredd diwydiannol, masnachol a domestig eraill.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu camau dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yng Nghymru? (WAQ48064)

**Carwyn Jones:** Mae llawer o ddarpariaethau Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 eisoes mewn grym yng Nghymru, yn cynnwys y rhai yn ymwneud ag ymestyn y drosedd o ollwng sbwriel, newidiadau i’r amddiffyniad statudol mewn perthynas ag arddangos hysbysebion yn anghyfreithlon, troseddau’n ymwneud â gadael, trin neu waredu gwastraff, camau gorfodi mewn perthynas â gwerthu paent aerosol i blant, dyfarnu costau a achosir mewn perthynas ag ymchwilio i dipio anghyfreithlon, glanhau ar ei ôl a chamau gorfodi, a swyddogaethau gwaredu gwastraff yr awdurdodau lleol.

Ar 4 Hydref 2006 hefyd, cymeradwyodd y Cynulliad bod rhagor o swyddogaethau i gael eu dirprwyo o dan y Ddeddf. Yr oedd hyn yn cynnwys darpariaethau’n ymwneud â cherbydau gadawedig, cerbydau wedi eu parcio’n anghyfreithlon, glynu posteri, cludo a gadael a gwaredu gwastraff, rheoli cŵn, sŵn, niwsans statudol a throlïau siopa a throlïau bagiau gadawedig. Bydd Gorchymyn cychwyn i ddod â gweddill darpariaethau’r Ddeddf i rym yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref.

Yr wyf yn bwriadu ymgynghori yn awr am ganllawiau gweithredu a rheoliadau drafft i ddod â’r mesurau hyn i rym, gyda golwg ar i’r rheoliadau ddod i rym erbyn gwanwyn 2007.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol? (WAQ48065)

**Carwyn Jones:** Mae canllawiau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol yn cael eu nodi yn ei ‘Chyfres Polisi Cynllunio’. Mae’r gyfres yn cynnwys:

- polisi cynllunio cenedlaethol—ar ffurf ‘Polisi Cynllunio Cymru’ (2002), ‘Polisi Cynllunio Mwynau Cymru’ (2000) a datganiadau polisi cynllunio interim gan y Gweinidog wedi’u rhifo;
- cyngor technegol—mae hyn yn dangos sut y dylai’r datganiadau polisi ym ‘Mholisi Cynllunio Cymru’ a ‘Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru’ gael eu cymhwyso mewn cynlluniau datblygu ac wrth reoli datblygu, ac mae’n cynnwys cyfres o nodiadau cyngor technegol wedi’u seilio ar bwnc a nodiadau cyngor technegol am fwynau; a
- chanllawiau gweithdrefnol—mae’r rhain yn dehongli ac yn egluro darn neilltuol o ddeddfwriaeth ac yn gyffredinol cânt eu cynnwys mewn cylchlythyron.

Mae’r dogfennau hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi i gynllunio defnydd tir mewn modd cynaliadwy. Yn y cyd-destun hwnnw y caiff cynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol eu paratoi ac y penderfynir ar geisiadau ac apeliadau unigol er mwyn rheoli datblygu.

Mae canllawiau pellach ynglŷn â chynlluniau datblygu yn benodol wedi’u nodi yn *Unitary Development Plans Wales* (2001), *Local Development Plans Wales* (2005) a *Planning Policy Wales Companion Guide* (2006). Mae’r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol* (2006) hefyd yn rhoi canllawiau technegol bras i helpu gyda’r gwaith o baratoi cynlluniau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei bolisïau ar gyfer amddiffyn ein cefn gwlad? (WAQ48066)

**Carwyn Jones:** Gwnaeth y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru, a lansiwyd ym mis Mai 2006, ymrwymiadau i amddiffyn bioamrywiaeth a chymeriad hanesyddol ein tirweddau. Mae’n bolisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn hyn i ddatblygu ein dealltwriaeth o fioamrywiaeth, tirweddau a morweddau, y pwysau arnynt a’r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau gwelliant.

Mae’r Cynulliad yn cefnogi’r confensiwn tirweddau Ewropeaidd, sy’n ymdrin â gwarchod a datblygu tirweddau a’u rheoli mewn modd cynaliadwy. Caiff ei ddefnyddio i helpu i nodi’r egwyddorion o ran

rheoli tirweddau yng Nghymru. Mae ein polisïau hefyd yn cydnabod yr effaith y gallai newid yn yr hinsawdd ei chael ar ein cefn gwlad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba gyllid sydd ar gael i gynghorau sir ar gyfer gosod a chynnal a chadw mannau chwarae i blant? (WAQ47996) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.***

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwarae yn dod o'r grant cynnal refeniw. Gan mai grant nad yw'n cael ei neilltuo yw'r grant cynnal refeniw mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut i'w wario yn unol â blaenoriaethau lleol.

Yn ogystal, mae chwarae, hamdden a chyfoethogi yn un o chwe thema Cymorth—y gronfa gymorth i blant a phobl ifanc. Yn 2006-07 cynyddodd dyraniadau Cymorth i bartneriaethau lleol i fwy na £54 miliwn. Caiff cyllid ei ddosbarthu gan bartneriaethau yn ardal pob awdurdod yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? (WAQ48042)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn 2006-07 yn £3,858.4 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 8 y cant o'i gymharu â darpariaeth 2005-06.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau gwario ar gyfer y chwe mis nesaf? (WAQ48043)

**Sue Essex:** Mae fy nghynlluniau gwario wedi eu nodi yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2006-07, y cytunodd y Cynulliad arni yn ystod 2005.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r sylwadau a wnaed iddi am gyllideb ar gyfer y portffolio addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? (WAQ48044)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cael cyfarfodydd yn rheolaidd gyda'r holl Weinidogion portffolio i drafod materion yn ymwneud â'r gyllideb.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth leoli yng nghyswllt swyddi yn y gwasanaeth sifil? (WAQ48045)

**Sue Essex:** Mae adeilad newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful i fod i agor yn fuan a bydd yn dal 450 o swyddi yn fras.

Ym mis Chwefror 2005 amlinellais y swyddogaethau a'r swyddi a fydd yn adleoli i'r adeiladau newydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Bydd adeilad Aberystwyth yn dal 179 o swyddi a fydd yn trosglwyddo o Gaerdydd, ynghyd â 322 arall a fydd yn adleoli o'r rhanbarthau. Bydd swyddfa Cyffordd Llandudno yn dal 180 a fydd yn trosglwyddo o Gaerdydd, ynghyd â 345 arall a fydd yn adleoli o'r rhanbarthau.

**Karen Sinclair:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth bennu'r gyllideb gyffredinol a ddarperir ar gyfer y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer 2006-07? (WAQ48046)

**Sue Essex:** Pennir dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru gan y blaenoriaethau a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddarperir ar gyfer y portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon? (WAQ48047)

**Sue Essex:** Mae'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon yn 2006-07 yn £143.716 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 3.4 y cant o'i gymharu â darpariaeth 2005-06.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddarperir ar gyfer y portffolio menter, arloesi a rhwydweithiau? (WAQ48048)

**Sue Essex:** Mae'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y portffolio menter, arloesi a rhwydweithiau yn 2006-07 yn £1,472.4 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 3 y cant o'i gymharu â darpariaeth 2005-06.

**John Griffiths:** Pa ffactorau a ystyriwyd gan y Gweinidog wrth bennu dyraniadau'r gyllideb gyffredinol o fewn cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ48049)

**Sue Essex:** Pennir dyraniadau cyllideb y Llywodraeth gan y blaenoriaethau a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**Leanne Wood:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn parchu annibyniaeth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus? (WAQ48072)

**Sue Essex:** Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw sefyllfa wedi codi lle mae annibyniaeth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru wedi cael ei gwestiynu na'i danseilio. Yn ôl y ddeddfwriaeth y bwriwyd ymlaen â hi ar gais Llywodraeth y Cynulliad, mae'r Ombwdsmon yn benodedig gan y Goron, ffaith sy'n atgyfnerthu statws y swydd a'i hannibyniaeth oddi wrth y Llywodraeth. Daeth yr ombwdsmon i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 21 Medi ac ynddo dywedodd y bydd y gwasanaeth ombwdsmon yn parhau i fwynhau 'safle rhagorol o annibyniaeth' fel y teimla sydd ganddo ar hyn o bryd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson:** Sawl tîm a sefydlwyd cyn belled i ymgymryd â'r gwaith o asesu pob claf cartref sy'n defnyddio ocsigen, a ragwelwyd fel rhan o'r gwasanaeth newydd, dan y contract ocsigen newydd, ac ym mha ardaloedd y mae'r timau eisoes wedi eu sefydlu? (WAQ47958)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae timau asesu o wahanol fathau eisoes yn bresennol mewn ymddiriedolaethau GIG ledled Cymru. Nid oes gwybodaeth am drefniadau comisiynu rhwng BILlau ac ymddiriedolaethau GIG mewn perthynas â'r contract ocsigen newydd yn cael ei dal yn ganolog. Mae'r grŵp cyfeirio therapi ocsigen, a sefydlwyd i roi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad am faterion yn ymwneud â chontractau, yn cael ei ailgynnull.

**Jenny Randerson:** Pa bryd y mae'r cyfleuster ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta'n agor yng Nglanrhyd, Pen-y-bont ar Ogwr? (WAQ47979)

**Brian Gibbons:** Bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn dechrau ar ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â chynlluniau i ddatblygu gwasanaeth cleifion mewnol iechyd meddwl i blant a'r glasoed ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fuan. Mae'r ymgynghori i fod i ddechrau ym mis Hydref am 12 wythnos. Mae'r cynigion yn cynllunio ar gyfer ateb interim mewn llety wedi'i ailwampio yng Nglanrhyd a fydd ar gael erbyn mis Mehefin 2008 a chyfleuster parhaol mewn cyfleusterau sydd i gael eu codi'n bwrpasol ar safle Ysbyty Tywysog Cymru erbyn mis Mehefin 2009.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y nifer o ambiwlansys parafeddygol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol? (WAQ47985)

**Brian Gibbons:** Mater gweithredol yw hwn a chyfrifoldeb Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ydyw felly. Mater i reolwyr yr ymddiriedolaeth yw penderfynu ar lefelau priodol o ddarpariaeth ambiwlansys ym mhob rhan o Gymru. Mae lleoliad adnoddau ambiwlans brys a'r ffordd y cânt eu defnyddio yn cael eu rheoli drwy system o ddefnydd dynamig ac mae'n dibynnu ar y galw yn hytrach nag ar ffiniau daearyddol.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r nifer o weithiau y mae wedi cyfarfod â swyddogion iechyd sy'n gyfrifol am ad-drefnu gwasanaethau iechyd yn yr ardaloedd canlynol (a) y De Ddwyrain, (b) y De Orllewin, (c) y Canolbarth a (d) Gogledd Cymru? (WAQ47986)

**Brian Gibbons:** Mae'r adolygiad cyfredol o wasanaethau GIG yng Nghymru yn cael ei arwain gan y gymuned GIG leol ym mhob un o dri rhanbarth Cymru. Gan fod yr ad-drefnu ar y gwasanaethau yn cael ei arwain gan y GIG ei hun, yr wyf wedi cwrdd â'r personél dan sylw nifer o weithiau ac mewn llawer o gyd-destunau a sefydliadau gwahanol.

Mae'r nifer o weithiau yr wyf wedi cwrdd â swyddogion iechyd yn y tri rhanbarth, yn benodol ynglŷn â'r ad-drefnu gwasanaethau, fel a ganlyn:
Y Canolbarth a'r Gorllewin—4
Y De Ddwyrain—2
Y Gogledd—1.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar (a) y diffyg ariannol a (b) y ddyled ariannol ar gyfer pob un o ymddiriedolaethau'r GIG yn ystod pob blwyddyn er 1999? (WAQ47987)

**Brian Gibbons:** Mae'r tabl isod yn dangos y gwargedau a'r diffygion a gofnodwyd yn y datganiadau incwm a gwariant o gyfrifon blynyddol yr ymddiriedolaethau am y cyfnod rhwng 1999-2000 a 2005-06. (Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno'r GIG (Cymru)).

**Gwargedau a Diffygion Ymddiriedolaethau GIG Cymru 1999-2006**

| | **2005-06** | **2004-05** | **2003-04** | **2002-03** | **2001-02** | **2000-01** | **1999-2000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 58 | 53 | 24 | 15 | 4 | 10 | 37 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gymunedol Caerdydd a'r Cylch | - | - | - | - | - | - | (121) |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | (1,428) | (1,955) | (2,492) | (3,374) | 19 | 45 | (4,071) |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | (4,624) | (4,471) | (4,882) | (4,487) | (1,595) | 14 | (2,923) |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru | (341) | (516) | (880) | (827) | 593 | 246 | (150) |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | (4,184) | 13 | 25 | 0 | (593) | 504 | (399) |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | (6,088) | (74) | 30 | 69 | 13 | 16 | 61 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | (3,631) | 1 | (75) | (476) | (447) | 2757 | (2,960) |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | (875) | (22) | 3 | (55) | (143) | 161 | (108) |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 81 | 4 | 145 | 149 | (69) | 178 | (53) |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | (2,492) | (2,290) | (3,347) | (2,356) | 1958 | 72 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda | 18 | 149 | 257 | 171 | 55 | 346 | 186 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys | | | | (656) | (404) | 403 | 1,003 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | (2,208) | 7 | 7 | 6 | 9 | 4132 | (976) |
| Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandoche | - | - | - | - | - | - | (3,950) |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | (172) | 4 | 426 | (70) | (29) | 491 | 1,358 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 7 | 111 | 1,066 | 962 | (2,203) | (1,743) | (379) |

**Nodyn**

1. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro ar 1 Ebrill 2000.
2. Diddymwyd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys ar 31 Mawrth 2003.

Mae’r tabl a gyhoeddwyd fel gwybodaeth ychwanegol at WAQ47987 yn dangos y sefyllfa o ran cyfanswm dyledion a dyledion adferadwy rhwng 1999-2000 a 2005-06. (Ffynhonnell: cyfrifon cryno GIG (Cymru)).

Ym mis Ionawr 2002, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai benthyciadau a roddwyd cyn mis Ebrill 2001 yn cael eu dileu pan fyddai ymddiriedolaethau wedi mantoli eu cyllideb am ddwy flynedd. Mae’r benthyciadau sydd i gael eu dileu yn cael eu dangos yn y tabl fel ‘dyledion hanesyddol’.

**Leanne Wood:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog ynghylch cynigion i uno Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg ag Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda? (WAQ47988)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi sgwrsio ag aelodau etholedig yr etholaethau. Cynnig sy’n cael ei arwain gan y gwasanaeth yw hwn ac mae byrddau ymddiriedolaethau Gogledd Morgannwg a Phontypridd a Rhondda ill dau wedi ystyried papur sefyllfa yn nodi manteision uno. Bu’r cyswllt mwyaf rhwng fy swyddogion a’r ymddiriedolaethau dan sylw.

**Leanne Wood:** Pa ganran o gwestiynau ysgrifenedig i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi’u hateb gydag atebion yn nodi (a) na ddelir y wybodaeth yn ganolog (b) yn egluro mai cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw'r mater a godwyd; neu (c) yn egluro mai cyfrifoldeb ymddiriedolaethau’r GIG yw’r mater a godwyd? (WAQ47995)

**Brian Gibbons:** Rhwng 25 Chwefror 2002—pan ddechreuodd ein cofnodion electronig—a 26 Medi 2006 pan gyflwynwyd y cwestiwn hwn, mae 4,818 o gwestiynau ysgrifenedig wedi cael eu gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai’r gost o baratoi’r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani yn afresymol ac yn uwch na chyngor y Cynulliad o ran terfynau cost. Mae’r atebion

i'r holl Gwestiynau Cynulliad Ysgrifenedig a atebwyd er 12 Mai 1999 ar gael i'r cyhoedd fel rhan o Gofnod Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:
http://www.cymru.gov.uk/keypubrecordproceedings/index.htm

Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yw darparu cyfeiriad strategol i'r GIG yng Nghymru ac i'r ymddiriedolaethau GIG a'r BILlau ddarparu a chyflenwi gwasanaethau'n lleol. Caiff gwybodaeth ei chasglu'n ganolog am lawer o agweddau o wasanaethau'r GIG, er nid pob un o bell ffordd. Os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn cwestiwn Cynulliad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, bydd yr ateb yn darparu'r wybodaeth honno. Lle nad yw'r wybodaeth ganddi, bydd yr ateb yn egluro nad yw'n cael ei dal yn ganolog.

Er nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru efallai yn casglu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani nid yw'n dilyn o reidrwydd nad yw'r wybodaeth yn bodoli yn rhywle arall. Mae'n bosibl y bydd yn cael ei dal gan ymddiriedolaethau GIG a BILlau unigol at eu dibenion gweithredol eu hunain. Mewn achosion felly gallai'r gost o gasglu'r data gofynnol oddi wrth gyrff GIG er mwyn ymateb i Gwestiwn Cynulliad Ysgrifenedig fod yn afresymol ac efallai, unwaith eto, y byddai'n uwch na chyngor y Cynulliad o ran terfynau cost.

Dywed canllawiau'r Llywydd ynglŷn â chwestiynau Cynulliad (Mai 2003) ym mharagraff 1.4:

'Dylai diwylliant y Cynulliad annog llif ddirwystr o wybodaeth rhwng y Cabinet a'r Aelodau, fel nad oes angen dulliau ffurfiol dim ond er mwyn cael gwybodaeth ffeithiol. Yn aml, y Fewnrwyd a'r Llyfrgell, a all gynnig gwasanaeth briffio ffeithiol, yw'r ffordd fwyaf priodol, a'r cyflymaf, o ddod o hyd i wybodaeth ffeithiol.'

Mae paragraff 3.6 o'r canllawiau'n datgan bod cwestiynau sy'n gofyn am 'weithredu i ymdrin â materion gweithredol dan reolaeth ... awdurdodau iechyd ... nad oes gan Brif Weinidog Cymru [a] Gweinidogion Cynulliad ... bŵer i'w cyflawni' yn annerbyniol. 'Nid yw cwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yn dderbyniol, pan all yr Aelod Cynulliad ddod o hyd i'r wybodaeth drosto'i hun neu o ffynhonnell arall'.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr hepatolegyddion a argymhellir ar gyfer y boblogaeth o 2.9 miliwn, a faint sydd wedi'u lleoli yng Nghymru? (WAQ48013)

**Brian Gibbons:** Yng Nghymru mae cleifion sydd â chlefyd yr iau yn cael eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu harwain gan Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, sydd hefyd wedi datblygu gwasanaeth rhag-ddethol iau ar gyfer canserau eilaidd. Mae'r cleifion hynny y mae angen rheolaeth fwy cymhleth dros eu hachos neu y mae angen trawsblaniad iau arnynt yn cael eu cyfeirio i glinigau arbenigol yn Lloegr am driniaeth.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ48020)

**Brian Gibbons:** Mae cynllun y GIG i ail-gyflunio gwasanaethau yn y Gogledd yn darparu opsiynau i newid y ddarpariaeth gwasanaethau yn yr ardal. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mor lleol â phosibl.

Y blaenoriaethau i Alun a Glannau Dyfrdwy dros y 12 mis nesaf yw datblygu ac ymestyn yr ystod o wasanaethau gofal sylfaenol sydd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys datblygu canolfannau adnoddau gofal sylfaenol newydd yng Nghei Connnah, Bwcle a'r Hob. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint wedi penodi datblygwyr sy'n cael eu ffafrio ar gyfer y cynlluniau hyn erbyn hyn.

**Lynne Neagle:** Faint o arian ychwanegol a ddyrannwyd yn y misoedd diwethaf i Gomisiwn Iechyd Cymru ariannu therapïau addasu clefydau? (WAQ48032)

**Brian Gibbons:** Mae £700,000 ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i Gomisiwn Iechyd Cymru ar gyfer 2006-07 i sicrhau bod cleifion sydd â sglerosis ymledol yr aseswyd eu bod yn gymwys i gael therapïau addasu clefydau yn gallu dechrau ar eu triniaeth cyn gynted â phosibl.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi'r niferoedd o drosglwyddiadau gofal lle cafwyd oedi, yn ôl BILl yng Nghymru am y tair blynedd diwethaf? (WAQ48033)

**Brian Gibbons:** Manylir ar y nifer o drosglwyddiadau gofal lle cafwyd oedi, yn ôl BILl yng Nghymru, fel y'i cofnodwyd ar y gronfa ddata trosglwyddiadau gofal lle cafwyd oedi yn y tablau isod.

Mae'r ffigurau'n cynnwys oedi ym mhob sefydliad lle nad yw unigolyn yn y lleoliad mwyaf priodol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae unigolyn yn barod i symud i sefydliad GIG arall i gael triniaeth barhaus a lle nad y sefydliad cyfredol yw'r un mwyaf priodol ar gyfer ei anghenion. Gall hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes lle addas ar gael neu lle mae a wnelo'r oedi â dewis cleifion.

**Nifer o achosion o oedi yn ôl ALl/BILl Awst 2003-Awst 2004**

| Awdurdod Lleol | Aws 03 | Med 03 | Hyd 03 | Tach 03 | Rhag 03 | Ion 04 | Chwe 04 | Maw 04 | Ebr 04 | Mai 04 | Meh 04 | Gor 04 | Aws 04 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 46 | 45 | 40 | 35 | 42 | 47 | 44 | 49 | 57 | 48 | 42 | 34 | 34 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 30 | 21 | 18 | 16 | 14 | 22 | 15 | 15 | 13 | 20 | 12 | 9 | 11 |
| Caerffili | 78 | 77 | 71 | 89 | 71 | 70 | 66 | 56 | 44 | 33 | 21 | 35 | 39 |
| Caerdydd | 151 | 116 | 127 | 147 | 123 | 130 | 112 | 100 | 114 | 120 | 121 | 103 | 101 |
| Sir Gaerfyrddin | 79 | 93 | 87 | 114 | 90 | 109 | 135 | 117 | 114 | 106 | 73 | 70 | 63 |
| Ceredigion | 33 | 38 | 27 | 33 | 32 | 33 | 33 | 33 | 29 | 29 | 27 | 29 | 28 |
| Conwy | 18 | 9 | 23 | 20 | 23 | 16 | 16 | 17 | 15 | 12 | 18 | 11 | 23 |
| Sir Ddinbych | 18 | 20 | 14 | 36 | 15 | 19 | 20 | 20 | 19 | 14 | 8 | 11 | 10 |
| Sir y Fflint | 37 | 42 | 26 | 25 | 26 | 36 | 28 | 27 | 22 | 33 | 20 | 17 | 25 |
| Gwynedd | 18 | 19 | 19 | 21 | 14 | 13 | 19 | 20 | 10 | 15 | 17 | 13 | 17 |
| Ynys Môn | 9 | 15 | 23 | 15 | 18 | 15 | 12 | 11 | 9 | 7 | 6 | 10 | 19 |
| Merthyr Tudful | 18 | 15 | 11 | 21 | 13 | 19 | 23 | 25 | 22 | 18 | 27 | 22 | 22 |
| Sir Fynwy | 20 | 21 | 18 | 17 | 18 | 21 | 21 | 26 | 27 | 22 | 27 | 22 | 23 |
| Castell-nedd Port Talbot | 27 | 40 | 41 | 30 | 31 | 30 | 34 | 34 | 42 | 50 | 52 | 34 | 32 |
| Casnewydd | 67 | 60 | 59 | 67 | 58 | 62 | 57 | 53 | 56 | 38 | 51 | 47 | 48 |
| Sir Benfro | 19 | 23 | 30 | 37 | 24 | 24 | 21 | 26 | 17 | 11 | 10 | 18 | 30 |
| Powys | 39 | 40 | 31 | 33 | 41 | 29 | 22 | 26 | 26 | 27 | 28 | 17 | 28 |
| Rhondda Cynon Taf | 92 | 112 | 92 | 93 | 77 | 94 | 81 | 76 | 62 | 69 | 67 | 72 | 94 |
| Abertawe | 65 | 91 | 62 | 67 | 55 | 61 | 63 | 71 | 66 | 58 | 66 | 64 | 46 |
| Tor-faen | 41 | 47 | 55 | 58 | 67 | 66 | 50 | 53 | 47 | 48 | 47 | 36 | 26 |
| Bro Morgannwg | 47 | 46 | 48 | 52 | 51 | 61 | 67 | 64 | 45 | 47 | 41 | 36 | 29 |
| Wrecsam | 58 | 52 | 39 | 34 | 37 | 37 | 34 | 34 | 30 | 34 | 42 | 27 | 38 |
| Cyfanswm ALl | 1010 | 1042 | 961 | 1060 | 940 | 1014 | 973 | 953 | 886 | 859 | 823 | 737 | 786 |

**Nifer o achosion o oedi yn ôl ALl/BILl Medi 2004-Awst 2005**

| Awdurdod Lleol | Med 04 | Hyd 04 | Tach 04 | Rhag 04 | Ion 05 | Chwe 05 | Maw 05 | Ebr 05 | Mai 05 | Meh 05 | Gor 05 | Aws 05 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 31 | 18 | 12 | 16 | 16 | 17 | 12 | 5 | 13 | 12 | 9 | 12 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 12 | 13 | 22 | 17 | 16 | 13 | 12 | 17 | 11 | 19 | 22 | 20 |
| Caerffili | 54 | 41 | 35 | 31 | 25 | 23 | 30 | 20 | 30 | 24 | 21 | 23 |
| Caerdydd | 118 | 147 | 145 | 151 | 149 | 154 | 147 | 157 | 167 | 161 | 154 | 140 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 51 | 45 | 38 | 32 | 52 | 48 | 39 | 45 | 53 | 38 | 62 | 74 |
| Ceredigion | 25 | 18 | 22 | 23 | 19 | 26 | 20 | 15 | 16 | 17 | 17 | 16 |
| Conwy | 13 | 17 | 22 | 16 | 24 | 23 | 22 | 14 | 21 | 14 | 17 | 19 |
| Sir Ddinbych | 13 | 14 | 17 | 11 | 21 | 23 | 18 | 19 | 21 | 18 | 18 | 11 |
| Sir y Fflint | 23 | 26 | 26 | 16 | 21 | 21 | 35 | 35 | 20 | 15 | 11 | 21 |
| Gwynedd | 13 | 19 | 23 | 18 | 16 | 17 | 20 | 15 | 19 | 22 | 20 | 15 |
| Ynys Môn | 8 | 11 | 5 | 7 | 8 | 13 | 11 | 8 | 8 | 9 | 10 | 9 |
| Merthyr Tudful | 16 | 14 | 13 | 13 | 14 | 23 | 15 | 9 | 13 | 17 | 18 | 19 |
| Sir Fynwy | 20 | 15 | 13 | 6 | 8 | 10 | 4 | 5 | 6 | 5 | 4 | 7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 27 | 43 | 38 | 27 | 39 | 25 | 41 | 38 | 29 | 25 | 25 | 29 |
| Casnewydd | 45 | 41 | 39 | 38 | 52 | 30 | 37 | 34 | 43 | 27 | 37 | 40 |
| Sir Benfro | 33 | 24 | 27 | 22 | 23 | 18 | 15 | 26 | 34 | 27 | 36 | 25 |
| Powys | 22 | 22 | 26 | 16 | 17 | 13 | 11 | 19 | 14 | 15 | 8 | 5 |
| Rhondda Cynon Taf | 71 | 76 | 83 | 76 | 79 | 75 | 59 | 54 | 61 | 55 | 54 | 47 |
| Abertawe | 76 | 55 | 61 | 67 | 73 | 74 | 46 | 41 | 40 | 46 | 40 | 51 |
| Tor-faen | 28 | 30 | 38 | 31 | 25 | 22 | 28 | 30 | 24 | 27 | 20 | 19 |
| Bro Morgannwg | 35 | 47 | 44 | 44 | 50 | 44 | 30 | 31 | 35 | 38 | 30 | 42 |
| Wrecsam | 35 | 44 | 41 | 52 | 46 | 41 | 39 | 43 | 37 | 34 | 28 | 32 |
| Cyfanswm | 769 | 780 | 790 | 730 | 793 | 753 | 691 | 680 | 715 | 665 | 661 | 676 |

**Nifer o achosion o oedi yn ôl ALl/BILl Medi 2005-Awst 2006**

| Awdurdod Lleol | Med 05 | Hyd 05 | Tach 05 | Rhag 05 | Ion 06 | Chwe 06 | Maw 06 | Ebr 06 | Mai 06 | Meh 06 | Gor 06 | Aws 06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 6 | 4 | 1 | 2 | 5 | 3 | 7 | 8 | 5 | 9 | 3 | 11 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 18 | 14 | 14 | 9 | 8 | 14 | 11 | 13 | 16 | 11 | 14 | 11 |
| Caerffili | 26 | 27 | 26 | 20 | 14 | 16 | 14 | 24 | 26 | 17 | 5 | 28 |
| Caerdydd | 154 | 146 | 145 | 138 | 123 | 124 | 127 | 121 | 132 | 140 | 113 | 124 |
| Sir Gaerfyrddin | 50 | 62 | 66 | 64 | 67 | 54 | 51 | 59 | 57 | 44 | 43 | 28 |
| Ceredigion | 18 | 20 | 19 | 14 | 20 | 19 | 26 | 19 | 19 | 17 | 12 | 11 |
| Conwy | 23 | 21 | 21 | 14 | 14 | 8 | 13 | 13 | 10 | 13 | 10 | 10 |
| Sir Ddinbych | 18 | 19 | 15 | 10 | 6 | 9 | 8 | 9 | 9 | 5 | 9 | 4 |
| Sir y Fflint | 20 | 15 | 13 | 8 | 9 | 8 | 12 | 4 | 7 | 16 | 11 | 11 |
| Gwynedd | 18 | 21 | 14 | 16 | 31 | 21 | 22 | 18 | 17 | 18 | 15 | 11 |
| Ynys Môn | 10 | 8 | 9 | 11 | 17 | 10 | 9 | 7 | 6 | 6 | 6 | 9 |
| Merthyr Tudful | 16 | 17 | 16 | 18 | 21 | 20 | 13 | 11 | 9 | 16 | 15 | 19 |
| Sir Fynwy | 7 | 15 | 11 | 9 | 8 | 11 | 13 | 11 | 13 | 11 | 15 | 16 |
| Castell-nedd Port Talbot | 35 | 21 | 17 | 28 | 31 | 32 | 31 | 30 | 32 | 37 | 29 | 31 |
| Casnewydd | 36 | 30 | 29 | 23 | 31 | 26 | 24 | 27 | 31 | 33 | 41 | 46 |
| Sir Benfro | 34 | 24 | 33 | 23 | 30 | 17 | 19 | 27 | 17 | 17 | 11 | 14 |
| Powys | 15 | 20 | 23 | 29 | 28 | 19 | 16 | 12 | 18 | 18 | 19 | 29 |
| Rhondda Cynon Taf | 58 | 55 | 45 | 34 | 43 | 49 | 51 | 42 | 61 | 51 | 52 | 53 |
| Abertawe | 48 | 48 | 49 | 40 | 39 | 45 | 46 | 52 | 41 | 35 | 47 | 48 |
| Tor-faen | 16 | 20 | 33 | 19 | 24 | 25 | 27 | 26 | 23 | 29 | 31 | 41 |
| Bro Morgannwg | 54 | 54 | 52 | 55 | 55 | 49 | 43 | 29 | 29 | 40 | 48 | 54 |
| Wrecsam | 30 | 32 | 33 | 32 | 30 | 27 | 29 | 34 | 21 | 20 | 19 | 32 |
| Cyfanswm | 710 | 693 | 684 | 616 | 654 | 606 | 612 | 596 | 599 | 603 | 568 | 641 |

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am faint o gleifion sydd wedi bod yn aros am therapïau addasu clefydau yn ôl Ymddiriedolaeth GIG? (WAQ48034)

**Brian Gibbons:** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Helen Mary Jones:** Am bob ardal BILl: a) beth oedd y costau a ragwelwyd ar gyfer contract yr ‘Agenda ar gyfer Newid’, b) y gwir gostau ar gyfer pob blwyddyn ers eu sefydlu, c) ac a wnaiff fanylu ar y

rhesymau dros fylchau rhwng y gwir gostau a'r costau a ragwelwyd, a d) pwy fydd yn ariannu'r bylchau hyn ac o ba gyllideb? (WAQ48035)

**Brian Gibbons:** Mae'r tabl isod yn manylu ar y cyllid 'Agenda ar gyfer Newid' i bob ymddiriedolaeth GIG yn 2004-05 a 2005-06. Nid yw'r costau gwirioneddol am bob blwyddyn wedi cael eu cadarnhau eto gan fod staff yn dal i gael eu cymhathu o'r graddfeydd cyflog blaenorol i'r colofnau cyflogau newydd.

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Cyllid 2004-05 £ miliwn** | **Cyllid 2005-06 £ miliwn** |
|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 2.121 | 3.969 |
| Caerdydd a'r Fro | 4.016 | 7.513 |
| Sir Gaerfyrddin | 1.071 | 2.005 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 0.380 | 0.710 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 1.757 | 3.288 |
| Gwent | 3.668 | 6.863 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 1.591 | 2.976 |
| Gogledd Morgannwg | 0.951 | 1.779 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 1.591 | 2.977 |
| Sir Benfro a Derwen | 1.065 | 1.993 |
| Pontypridd a Rhondda | 1.341 | 2.510 |
| Abertawe | 2.412 | 4.513 |
| Felindre | 0.520 | 1.091 |
| Ambiwlans Cymru | 6.689 | 12.516 |

**Helen Mary Jones:** Am bob ardal BILl: a) beth oedd y costau a ragwelwyd ar gyfer contract yr ymgynghorwyr, b) y gwir gostau ar gyfer pob blwyddyn ers eu sefydlu, c) ac a wnaiff fanylu ar y rhesymau dros fylchau rhwng y gwir gostau a'r costau a ragwelwyd, a d) pwy fydd yn ariannu'r bylchau hyn ac o ba gyllideb? (WAQ48036)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ45657 o ran y cyllid a roddwyd i'r ymddiriedolaethau GIG yn 2005-06 gogyfer â chontract yr ymgynghorwyr. Mae'r cyllid a roddwyd i'r ymddiriedolaethau GIG yn 2006-07 gogyfer â chontract yr ymgynghorwyr wedi cael ei nodi yn llythyr dyraniad refeniw BILlau 2006-07, Tabl 3, ac mae fel a ganlyn:

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **£ miliwn** |
|---|---|
| Bro Morgannwg | 3.766 |
| Caerdydd a'r Fro | 10.788 |
| Sir Gaerfyrddin | 2.236 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 1.098 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 3.425 |
| Gwent | 8.095 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru | 3.594 |
| Gogledd Morgannwg | 1.702 |
| Gogledd Orllewin Cymru | 3.426 |
| Sir Benfro a Derwen | 1.668 |
| Pontypridd a Rhondda | 2.418 |
| Abertawe | 7.684 |
| Felindre | 1.721 |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolaethau GIG** | **51.620** |
| BILl Powys | 0.242 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **51.862** |

Rhoddwyd y cyllid i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru ar sail reolaidd ar lefel prisiau 2005-06, ac ychwanegwyd 4.5 y cant yn unol â'r ychwanegiad craidd ar gyfer chwyddiant. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fanylion costau gwirioneddol contract yr ymgynghorwyr i bob ymddiriedolaeth GIG.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y ddyled gronedig ar gyfer pob corff GIG? (WAQ48037)

**Brian Gibbons:** Dangosir cyfanswm dyled gronedig ynghyd â dyled adferadwy cyrff GIG yn y tabl a gyhoeddwyd fel gwybodaeth ychwanegol at WAQ48037. (Ffynhonnell: Cyfrifon cryno GIG (Cymru) 2005-06).

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch pa gyrff GIG sydd wedi cyflawni'r cytundeb 2-flynedd er mwyn canslo'u dyled gronedig, a pha gyrff sydd mewn sefyllfa i gyflawni'r cytundeb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol? (WAQ48038)

**Brian Gibbons:** Ym mis Ionawr 2002, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai benthyciadau a roddwyd cyn mis Ebrill 2001 yn cael eu dileu pan fyddai ymddiriedolaethau wedi mantoli eu cyllideb am ddwy flynedd. Awdurdod Iechyd Dyfed Powys oedd yn dal £23.7 miliwn o'r benthyciadau hyn, a chafodd y rhain eu dileu yn 2002-03. Mae'r symiau eraill yn cael eu dal gan ymddiriedolaethau, a dangosir y symiau isod:

| **Ymddiriedolaeth** | **Swm (£ miliwn)** |
|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | 10.179 |
| Sir Gaerfyrddin | 3.174 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 0.494 |
| Sir Benfro a Derwen | 2.800 |
| **Cyfanswm** | **16.647** |

O'r ymddiriedolaethau hyn, dim ond Caerdydd a'r Fro sydd wedi cyrraedd y targed o fantoli'r gyllideb am ddwy flynedd, a byddant mewn sefyllfa felly i ddileu elfen hanesyddol eu dyled gronedig yn 2006-07.

**Helen Mary Jones:** Am bob ardal BILl: a) beth oedd y costau a ragwelwyd ar gyfer y gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau arferol, b) y gwir gostau ar gyfer pob blwyddyn ers eu sefydlu, c) ac a wnaiff fanylu ar y rhesymau dros fylchau rhwng y gwir gostau a'r costau a ragwelwyd, a d) pwy fydd yn ariannu'r bylchau hyn ac o ba gyllideb? (WAQ48041)

**Helen Mary Jones:** Am bob ardal BILl: a) beth oedd y costau a ragwelwyd ar gyfer y contract meddygon teulu, b) y gwir gostau ar gyfer pob blwyddyn ers eu sefydlu, c) ac a wnaiff fanylu ar y rhesymau dros fylchau rhwng y gwir gostau a'r costau a ragwelwyd, a d) pwy fydd yn ariannu'r bylchau hyn ac o ba gyllideb? (WAQ48039)

**Brian Gibbons:** Dangosir costau'r contract gwasanaethau meddygol newydd ers ei sefydlu ar 1 Ebrill 2004, a chostau'r gwasanaeth newydd y tu allan i oriau arferol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2004, fel y'u hadroddwyd, yn y tabl isod yn ôl bwrdd iechyd lleol.

Mae'r cyllid ar gyfer y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn adnodd cyfyngedig ac mae unrhyw risg alldro yn cael ei rheoli gan y byrddau iechyd lleol. Er bod y dyraniadau ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn arian sy'n cael ei neilltuo, gall y byrddau iechyd lleol fuddsoddi arian dewisol yn y gwasanaethau. Penderfynodd nifer o fyrddau iechyd lleol fuddsoddi arian ychwanegol i sicrhau bod y modelau newydd yn gweithredu ar safonau uchel. Dros amser mae maint y contractau

wedi addasu i'r galw ac mae hyn wedi golygu bod nifer o fyrddau iechyd lleol wedi lleihau costau'r gwasanaeth.

Nid oes gwybodaeth yn cael ei dal yn ganolog am y costau a oedd yn cael eu rhagweld gan y byrddau iechyd lleol o ran gwasanaethau meddygol cyffredinol a gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, y rhesymau am y gwahaniaethau rhwng y costau a ragwelwyd a'r gwir gostau, nac o ba rai o'u cyllidebau y telir unrhyw ddiffygion.

**Costau gwasanaethau meddygol cyffredinol (GMC) a gwasanaethau y tu allan i oriau arferol**

| | **Gwariant a Adroddwyd gan BILlau** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Contract GMC 2004-05** | **Contract GMC 2005-06** | **Y Tu Allan i Oriau 2004-05** | **Y Tu Allan i Oriau 2005-06** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Ynys Môn | 11.530 | 11.968 | 0.486 | 0.681 |
| Blaenau Gwent | 9.016 | 10.199 | 0.440 | 0.745 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 16.308 | 17.940 | 0.640 | 1.166 |
| Caerffili | 19.133 | 22.039 | 0.000 | 1.496 |
| Caerdydd | 38.006 | 40.246 | 2.130 | 2.209 |
| Sir Gaerfyrddin | 19.898 | 21.955 | 1.362 | 2.053 |
| Ceredigion | 12.920 | 13.822 | 1.202 | 1.596 |
| Conwy | 15.348 | 16.149 | 0.739 | 1.200 |
| Sir Ddinbych | 14.797 | 15.673 | 0.623 | 1.016 |
| Sir y Fflint | 19.248 | 20.655 | 0.720 | 1.206 |
| Gwynedd | 21.603 | 23.158 | 1.241 | 2.183 |
| Merthyr Tudful | 7.448 | 7.832 | 0.347 | 0.707 |
| Sir Fynwy | 15.745 | 16.286 | 0.551 | 1.011 |
| Castell-nedd Port Talbot | 14.530 | 16.040 | 0.467 | 1.031 |
| Casnewydd | 15.447 | 17.070 | 0.664 | 1.127 |
| Sir Benfro | 16.618 | 17.774 | 1.407 | 2.090 |
| Powys | 26.583 | 28.568 | 1.704 | 2.718 |
| Rhondda Cynon Taf | 28.818 | 31.245 | 1.084 | 2.441 |
| Abertawe | 25.701 | 28.693 | 1.263 | 1.952 |
| Tor-faen | 10.565 | 11.483 | 0.421 | 0.872 |
| Bro Morgannwg | 12.615 | 13.907 | 0.479 | 0.846 |
| Wrecsam | 15.943 | 17.311 | 0.873 | 1.449 |
| **Cyfansymiau** | **387.820** | **420.013** | **18.843** | **31.795** |

**Helen Mary Jones:** Ar gyfer pob Ymddiriedolaeth GIG a Chomisiwn Iechyd Cymru, a wnaiff y Gweinidog roi manylion y dyledion a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol hon? (WAQ48040)

**Brian Gibbons:** Mae'r diffygion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2006-07 fel a ganlyn:

Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych £2.5 miliwn;
Comisiwn Iechyd Cymru £5 miliwn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda sefydliadau eraill o fewn y GIG i sefydlu'r rhagolygon o ran y sefyllfa alldro ac nid yw'n bosibl mesur y lefel derfynol o ddiffygion yn y sefydliadau hyn ar hyn o bryd.

**Ann Jones:** Faint o bobl yng Nghymru sy’n dioddef o osteoporosis, yn ôl bwrdd iechyd lleol? (WAQ48051)

**Brian Gibbons:** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Ann Jones:** Faint o bobl yng Nghymru sy’n derbyn Forsteo (teriparatide) ar gyfer osteoporosis, yn ôl byrddau iechyd lleol? (WAQ48052)

**Brian Gibbons:** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Ann Jones:** Pa gyngor a chymorth a ddarperir i annog meddygon teulu i gymryd mantais o raglenni i ganfod cleifion mewn perygl o gael osteoporosis ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ48053)

**Brian Gibbons:** Mae gan feddygon teulu lawer o ffynonellau o gyngor a chymorth i’w galluogi i gyflawni eu rôl a chynnal ei sgiliau diagnostig a chlinigol wrth ddelio â phob cyflwr clinigol, yn cynnwys osteoporosis. Fel rhan o’n strategaeth i reoli cyflyrau cronig yng Nghymru, mae model integredig a fframwaith gweithredu yn cael eu datblygu. Mae meddygon teulu wedi cyfrannu’n helaeth at y broses o ddylunio’r fframwaith oherwydd y rôl allweddol y maent yn ei chyflawni yn rheoli cyflyrau cronig fel osteoporisis o fewn gofal sylfaenol.

**Ann Jones:** Pa ymchwil a werthuswyd gan y Gweinidog ar effeithlonrwydd mesurau i ganfod cleifion mewn perygl o gael osteoporosis, a thriniaeth osteoporosis gan sefydliadau gofal sylfaenol yng Nghymru ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ48054)

**Brian Gibbons:** Mae rheoli cleifion sydd ag osteoporosis o fewn gofal sylfaenol yn cael ei dargedu’n bennaf drwy elfen gwasanaethau hanfodol y contract GMC. Mae ymchwil i effeithiolrwydd clinigol mesurau gwaith ychwanegol a allai gael eu cynnwys yn fframwaith ansawdd a chanlyniadau’r contract GMC wedi cael ei wneud ar sail y DU a chyfeiriaf at fy ateb i WAQ47972 ar 2 Hydref.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae ei adran yn annog meddygon teulu yng Nghymru i edrych am ddiagnosis cynnar o osteoprosis? (WAQ48055)

**Brian Gibbons:** Mae sgiliau diagnostig meddygon teulu yn cael eu diweddaru drwy iddynt gymryd rhan mewn rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus ac arfarnu proffesiynol. Mae model integredig a fframwaith gweithredu yn cael eu datblygu fel rhan o’n strategaeth i wella iechyd a’r rheolaeth dros gyflyrau cronig. Bydd hyn yn rhoi arweiniad ar y rôl y mae gofyn i feddygon teulu ei chwarae yn diagnosio a rheoli cyflyrau fel osteoporosis.

**Ann Jones:** Pa gamau y mae’n eu cymryd i wella'r wybodaeth a’r gefnogaeth a gynigir i bobl ag osteoporosis yng Nghymru? (WAQ48056)

**Brian Gibbons:** Mae’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru, y cynllun orthopedig ar gyfer Cymru, a’r cyfarwyddebau datblygu gwasanaeth a chomisiynu sydd ar fin ymddangos gogyfer ag arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol cronig yn rhoi pwyslais ar hybu iechyd, atal, asesu a thrin osteoporosis yng Nghymru. Mae’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, a lansiwyd eleni, yn cynnwys safon bwrpasol yn ymdrin â chwympiadau ac mae’n cynnwys camau gweithredu penodol i fynd i’r afael ag osteoporosis. Cymunedau iechyd lleol sy’n gyfrifol am roi’r strategaethau hyn ar waith.

**Ann Jones:** Pa BILlau a/neu ymddiriedolaethau yng Nghymru sydd â gwasanaeth cwympiadau ac osteoporosis integreiddiedig? (WAQ48057)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd ers cyhoeddi 'Iaith Pawb' i brif ffrydio'r Gymraeg ym maes iechyd? (WAQ48067) [W]

**Brian Gibbons:** Yn 2002, dosbarthwyd cylchlythyr i'r GIG yng Nghymru yn cyhoeddi bod grŵp gorchwyl ar yr iaith Gymraeg yn cael ei sefydlu er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y GIG. Penderfynodd y grŵp gorchwyl y dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar bedwar grŵp, a rhoi blaenoriaeth iddynt—sef pobl hŷn, plant, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a phobl sydd ag anableddau dysgu.

Cyhoeddwyd cylchlythyr iechyd Cymru ym mis Chwefror 2002, ac yr oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd lleol enwebu 'hyrwyddwr yr iaith Gymraeg' (penodiad ar lefel y bwrdd), yn ogystal â 'pherson cyswllt yr iaith Gymraeg', er mwyn gyrru'r agenda hon yn ei blaen. Sefydlwyd Uned yr Iaith Gymraeg yn fy adran er mwyn cynnig arweiniad a chymorth ymarferol i'r gwasanaeth.

Yn 2004, comisiynodd fy adran Brifysgol Cymru, Bangor i wneud gwaith ymchwil ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y GIG. Esgorodd y gwaith hwn ar wybodaeth sylfaenol a gwerthfawr am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gwasanaeth. Cafodd pecynnau hyfforddi 'Iechyd Da/ Good Health' eu datblygu'n benodol ar gyfer y GIG yng Nghymru, a hyd yn hyn, mae dros 11,500 o weithwyr wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Erbyn hyn, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan o system rheoli perfformiad y cerdyn sgorio cytbwys. Mae hyn yn fodd i sicrhau bod darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod, ledled y GIG yng Nghymru, o'r gwaith rheoli perfformiad sy'n cael ei wneud.

Yn 2004, cyflwynwyd gwobrau'r Gymraeg mewn gofal iechyd er mwyn cydnabod arferion da, a'u rhannu. Mae'r gwobrau hyn yn cael eu rhoi am amryfal weithgareddau, gan gynnwys gwaith ym maes gofal sylfaenol, addysg, a therapi lleferydd ac iaith.

Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn fy adran yn rhoi cymorth i Ysgol Feddygaeth Prifysgol Cymru Abertawe ddatblygu deunyddiau hyfforddi er mwyn i staff clinigol a meddygol fagu hyder mewn defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gwaith.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gontractau, grantiau neu arian cyhoeddus arall a ddyfarnwyd, dan ei phortffolio, i Nwy Prydain er 1999, gan gynnwys pwrpas a chost pob eitem o wariant? (WAQ47901)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Dim ond un contract sydd wedi cael ei ddyfarnu i Nwy Prydain dan y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio. Mae Partneriaeth Eaga, sy'n cyflenwi'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn is-gontractio Nwy Prydain i reoli a chwblhau'r broses o osod cysylltiadau nwy newydd yng nghartrefi aelwydydd cymwys. Er 2000, mae Partneriaeth Eaga wedi talu £1,596,370 i Nwy Prydain i ddarparu cysylltiadau nwy newydd i 3007 o aelwydydd.

**Leanne Wood:** Faint o alwadau gan y cyhoedd a dderbyniodd llinell gymorth cyffuriau ac alcohol Cymru am bob blwyddyn ers iddi gael ei sefydlu? (WAQ47992)

**Edwina Hart:** Ar 1 Medi 2006 y daeth llinell gymorth cyffuriau ac alcohol Cymru yn weithredol. Ar 30 Medi, yr oedd wedi derbyn 72 o alwadau.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y targedau a osodwyd ganddi ar gyfer lleihau tlodi ymhlith plant a gwneud datganiad ar y cynnydd tuag at y targedau hynny? (WAQ47993)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn bwriadu darparu papur i'r Cabinet yn fuan am amryw o gerrig milltir a thargedau trawsbynciol i fonitro a mesur cynnydd tuag at ein nod o ddileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru erbyn 2020.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi canran y bobl 16 i 59 oed a nododd eu bod yn defnyddio heroin a chocên am bob mis o Ionawr 2002 hyd y presennol? (WAQ48014)

**Edwina Hart:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu am y nifer o bobl sy'n nodi eu bod yn defnyddio heroin a chocên.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi canran y bobl 11 i 16 oed a nododd eu bod yn yfed alcohol yn wythnosol am bob blwyddyn er 2002? (WAQ48015)

**Edwina Hart:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu am y nifer o bobl 11 i 16 oed sy'n yfed alcohol yn wythnosol. Fodd bynnag, mae Ystadegau Iechyd y DU 2006 yn cynnwys y data canlynol am yfed alcohol ymhlith pobl 11 i 16 oed yng Nghymru yn 2002 a 2004.

Canrannau a Ddywedodd Iddynt Yfed Alcohol yn yr Wythnos Flaenorol

| **Cymru** | | **2002** | **2004** |
|---|---|---|---|
| Gwrywod | 11 i 12 oed | 10% | 12% |
| | 13 i 14 oed | 31% | 25% |
| | 15 i 16 oed | 57% | 53% |
| Benywod | 11 i 12 oed | 7% | 5% |
| | 13 i 14 oed | 24% | 24% |
| | 15 i 16 oed | 52% | 48% |

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi canran y bobl 16 i 59 oed a nododd eu bod yn yfed alcohol y tu hwnt i'r terfynau a argymhellir yr wythnos am bob blwyddyn er 2002? (WAQ48016)

**Edwina Hart:** Mae gwybodaeth oddi ar 2003-04 am yfed mwy o alcohol na'r canllawiau dyddiol ymhlith pobl 16 i 59 oed wedi ei chynnwys yn arolwg iechyd Cymru. Mae hwn i'w weld ar y rhyngrwyd. Nid oes gwybodaeth ar gael am y terfynau wythnosol.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o gamddefnyddwyr sylweddau sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni trin camddefnyddio sylweddau am bob blwyddyn er 2002? (WAQ48017)

**Edwina Hart:** Mae'r nifer a gyfeiriwyd at asiantaethau trin bob blwyddyn er 2001-02 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2001-02 | 7170 |
| 2002-03 | 6875 |

| | |
|---|---|
| 2003-04 | 7730 |
| 2004-05 | 9613 |
| 2005-06 | 19407 |

Oherwydd y gyfradd gydymffurfio isel a’r diffyg safoni sy’n gysylltiedig â’r data a gyflenwyd i system genedlaethol triniaeth cyffuriau yr Adran Iechyd cyn 2005, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli data rhwng 2001-02 a 2004-05. Casglwyd y data am 2005-06 o gronfa ddata genedlaethol Cymru am gamddefnyddio sylweddau.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi canran y rhai 11 i 16 oed a nododd eu bod yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a sylweddau eraill am bob blwyddyn er 2002? (WAQ48018)

**Edwina Hart:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu am ganran y rhai 11 i 16 oed a nododd eu bod yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a sylweddau eraill.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y troseddwyr a gymerodd ran mewn rhaglenni triniaeth sy’n cael effaith gadarnhaol ar droseddu am bob blwyddyn er 2002? (WAQ48023)

**Edwina Hart:** Nid yw’r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi canran y troseddwyr sy’n camddefnyddio cyffuriau a dderbyniodd gollfarn arall o fewn 2 flynedd i droseddu (o’i gymharu â chyfradd ddisgwyliedig ail gollfarn) am bob blwyddyn er 2002? (WAQ48024)

**Edwina Hart:** Nid yw’r wybodaeth hon ar gael.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi’r nifer o bobl a arestiwyd am gyflenwi a meddiant gan fwriadu cyflenwi cyffuriau Dosbarth A fesul 10,000 o’r boblogaeth am bob blwyddyn er 2002? (WAQ48025)

**Edwina Hart:** Mae’r wybodaeth sydd ar gael am droseddau ac euogfarnau cyffuriau i’w gweld ar wefan y Swyddfa Gartref.

**Leanne Wood:** Faint o refeniw y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi’i gasglu o'r arian a dderbynnir gan awdurdodau lleol mewn budd-dal tai a delir i denantiaid tai cyngor er 2003, a sut y gwariwyd yr arian hwnnw? (WAQ48073)

**Edwina Hart:** Dim.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

**Leanne Wood:** Sut y mae’r Gweinidog yn sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn glynu at egwyddorion llywodraeth agored? (WAQ48071)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae’r fframwaith i ganiatáu i’r cyhoedd weld gwybodaeth sy’n cael ei dal gan Lywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fel y nodwyd yn ein Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae fy swyddogion yn yr uned mynediad at wybodaeth yn darparu cyngor a chymorth helaeth i staff ar draws Llywodraeth y Cynulliad a, phan ofynnir iddynt, i staff mewn CCNC, pan fyddant yn delio â cheisiadau am wybodaeth i sicrhau bod y safonau uchel a osodwyd yn ein cod yn cael eu cyrraedd. Yn ogystal â darparu'r cymorth hwn o ddydd i ddydd, mae fy swyddogion yn darparu hyfforddiant ac yn cynnal cymuned waith i sicrhau bod profiad o ddelio â cheisiadau yn cael ei rannu o fewn Llywodraeth y Cynulliad a chyda CCNC.

Yr ydym yng nghamau olaf adolygu ein cynllun cyhoeddi, sy'n nodi'r categorïau gwybodaeth yr ydym yn eu cyhoeddi fel mater o drefn, ac yr wyf yn falch ein bod wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddrafft. Ar ôl cael adborth gan ddefnyddwyr, bydd gan y cynllun diwygiedig bolisi codi tâl symlach a cheir mwy o eglurder ynddo o ran fformatau amgen y gall pobl ag anableddau fanteisio arnynt. Bydd y cynllun diwygiedig yn golygu mynediad haws at ystod o wybodaeth ychwanegol—yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â thwristiaeth, y cwricwlwm addysg, menter a'n canllawiau adnoddau dynol mewnol ni.